



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Addysg
Cyn-Gofrestru
Osteopathig

Canllawiau ar Ymddygiad Proffesiynol ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr mewn Addysg Osteopathig

Chwefror 2025



Cynnwys

1	Am y canllawiau hyn	3
2	Cyflwyniad	4
3	Beth mae addasrwydd i ymarfer myfyrwyr yn ei olygu?	4
4	Ymddygiad proffesiynol i fyfyrwyr	5
	Pam mae safonau uchel yn bwysig	5
	Gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol mewn perthynas â'r Safonau Ymarfer Osteopathig	5
5	Cefnogi a galluogi ymddygiad proffesiynol i fyfyrwyr	11
	Rôl y darparwyr addysg osteopathig	11
	Diwylliant Dysgu	11
	Myfyrwyr	12
	Profiad clinigol	12
6	Rôl y Cyngor Osteopathig Cyffredinol	13
	Cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol	14
7	Addasrwydd i ymarfer myfyrwyr: materion i'w hystyried	15
	Cychwyn achos addasrwydd i ymarfer myfyriwr	17
	Bywydau personol a'r effaith ar addasrwydd i ymarfer	18
	Enghraifft achos 7	20
	Cynnal ffiniau proffesiynol	20
	Lleisio pryderon	22
	Y ddyletswydd gonestrwydd	22
8	Polisiâu a gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr	23
	Trafod cyfaddefiadau gyda darpar fyfyrwyr	23
	Cyflyrau iechyd ac anabledau	23
	Euogfarnau a rhybuddion blaenorol	24
9	Cefnogaeth barhaus i fyfyrwyr	26
10	Canllawiau ar y broses ar gyfer achosion addasrwydd i ymarfer myfyrwyr	27
	Y trothwy ar gyfer addasrwydd i ymarfer myfyrwyr	27
	Y broses ymchwilio	28
	Rôl yr ymchwilydd	29
	Atal dros dro	30
	Y broses ddyfarnu: y panel addasrwydd i ymarfer	30
	Canlyniadau gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer myfyriwr	30
	Ymgymeriadau	32
	Amodau	33
	Atal o'r cwrs dros dro	34
	Diarddel o'r cwrs	34
	Terfynu ar sail iechyd	35
	Gwaredu trwy gydsyniad	35
	Cydnabyddiaeth	35

1 Am y canllawiau hyn

- 1 Pwrpas y canllawiau hyn yw amlinellu'r ymddygiad a'r gwerthoedd proffesiynol a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathi ac sy'n hanfodol i raddio a chael 'cymhwyster cydnabyddedig'. Mae cymhwyster cydnabyddedig yn galluogi unigolyn i gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor).
- 2 Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan fyfyrwyr a darparwyr addysg osteopathig. Maen nhw'n egluro rolau'r myfyrwyr, y darparwyr addysg yn ogystal â rôl y Cyngor wrth gefnogi datblygiad ymddygiad a gwerthoedd proffesiynol. Mae'r canllawiau'n esbonio hefyd sut i weithredu pan nad yw'r ymddygiad a'r gwerthoedd proffesiynol hyn yn cael eu dangos ac mae potensial i effeithio ar ddiogelwch cleifion neu enw da'r proffesiwn osteopathig.
- 3 Defnyddir enghreifftiau o achosion yn y ddogfen hon i helpu i roi cyddestun i'r canllawiau ac i ddangos sut y gellid eu defnyddio'n ymarferol. Nid ydynt yn cael eu cynnig fel dull 'safon aur', ond maen nhw'n dangos y mathau o broblemau a allai godi, a sut y gellid eu rheoli. Enghreifftiau ffuglennol yw'r rhain, ac nid ydynt yn seiliedig ar achosion, unigolion neu ddarparwyr addysg osteopathig go iawn.

2 Cyflwyniad

- 4 Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yw'r rheoleiddiwr statudol ar gyfer osteopathiaid yn y DU, ac er mwyn ymarfer yn y DU, rhaid i osteopathiaid fod ar Gofrestr y Cyngor. Pwrpas rheoleiddio yw:
- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
 - hybu a chynnal hyder y cyhoedd mewn osteopathi fel proffesiwn; a
 - hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.
- 5 Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd ag unrhyw ganllawiau penodol sydd ar waith ym mhob darparwr addysg neu leoliad clinigol lle gall myfyrwyr fod yn gweithio yn ystod eu hyfforddiant ynghyd â'r **Deiliannau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cyn-gofrestru Graddedigion a'r Safonau Addysg a Hyfforddiant**. Dylid cefnogi myfyrwyr hefyd i ymgorffori ac ymddwyn yn unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiad proffesiynol a amlinellir yn y **Safonau Ymarfer Osteopathig**.

3 Beth mae addasrwydd i ymarfer myfyrwyr yn ei olygu?

- 6 Mae bod yn 'addas i ymarfer' yn golygu bod gan rywun nid yn unig y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, ond mae'n dangos yr ymddygiad a'r gwerthoedd proffesiynol gofynnol i ymarfer osteopathi yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae gwahaniaethau rhwng y safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathig ac osteopathiaid unwaith y byddant wedi'u cofrestru, ond mae yna lawer o debygrwydd hefyd. Myfyrwyr osteopathig yw osteopathiaid y dyfodol.
- 7 Rôl y darparwr addysg osteopathig yw sicrhau mai dim ond myfyrwyr sy'n bodloni'r cymhwysedd, yr ymddygiad a'r safonau moesegol gofynnol a nodir yn y Safonau Ymarfer Osteopathig sy'n derbyn cymhwyster cydnabyddedig.
- 8 Mewn achosion lle na ellir dangos y safonau gofynnol, gall fod yn briodol i'r darparwr addysg ddyfarnu cymhwyster arall nad oes ganddo statws cymhwyster cydnabyddedig, ac na all arwain at gofrestru gyda'r Cyngor.

4 Ymddygiad proffesiynol i fyfyrwyr

Pam mae safonau uchel yn bwysig

- 9 Mae cleifion, gofalwyr a'r cyhoedd yn disgwyl i weithwyr gofal iechyd proffesiynol drin cleifion yn briodol ac ymddwyn yn foesebol, gan roi buddiannau cleifion yn gyntaf. Mae ymddiriedaeth yn hanfodol bwysig i'r berthynas therapiwtig a rhaid cynnal yr ymddiriedaeth hon yn y proffesiwn yn ei gyfanrwydd yn ogystal â gydag osteopathiaid a myfyrwyr unigol.
- 10 Gall gweithredoedd osteopathiaid a myfyrwyr unigol effeithio ar ymddiriedaeth yn y proffesiwn yn gyffredinol. Rhaid i osteopathiaid a myfyrwyr osteopathig dangos ymddygiad o safon uchel yn bersonol ac yn broffesiynol, sy'n cyfiawnhau'r ymddiriedaeth a roddir ynddynt fel aelodau o'r proffesiwn yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi lefel ychwanegol o gyfrifoldeb ar fyfyrwyr osteopathi gan eu bod ymhlith y myfyrwyr hynny sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr iechyd proffesiynol rheoledig.

Gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol mewn perthynas â'r Safonau Ymarfer Osteopathig

- 11 Mae'r gwerthoedd a'r ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan osteopathiaid a graddedigion wedi'u hamlinellu'n llawn yn y **Safonau Ymarfer Osteopathig a'r Deiliannau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cyn-gofrestru Graddedigion a'r Safonau Addysg a Hyfforddiant** ac fe'u nodir o dan bedair thema'r Safonau Ymarfer Osteopathig:
- **Thema A: Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf**
 - **Thema B: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad**
 - **Thema C: Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer**
 - **Thema D: Proffesiynoldeb**
- 12 Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth myfyriwr o ymddygiad proffesiynol yn newid ac yn datblygu dros amser, ac wrth iddynt symud ymlaen drwy eu hyfforddiant. Bydd y sefyllfaoedd a'r profiadau y maen nhw'n dod ar eu traws yn ystod eu hastudiaethau yn helpu i lywio'r broses hon, ac yn cyfrannu at eu haddasrwydd i ymarfer a'u gallu i ddangos y gwerthoedd a'r ymddygiad disgwylid. O ganlyniad, bydd y disgwyliadau a roddir ar addasrwydd i ymarfer myfyriwr yn cynyddu wrth i'w hyfforddiant fynd rhagddo, yn enwedig pan fyddant yn dechrau gweld cleifion yng ngham clinigol eu haddysg. Fodd bynnag, ni ddylid gweld hyn fel esgus i ymddwyn yn amhroffesiynol ym mlynnyddoedd cynnar eu haddysg osteopathig. Mae'n bosibl i ymddygiad myfyriwr effeithio ar ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth yn y proffesiwn ar unrhyw adeg.
- 13 Wrth ystyried eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad pobl eraill, dylai myfyrwyr ofyn i'w hunain, a fydd yn effeithio ar:
- a. ddiogelwch cleifion neu'r canfyddiad o ddiogelwch cleifion (gan gynnwys diogelwch cyd-fyfyrwyr a staff)?
 - b. ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig?

Thema Safonau Ymarfer Osteopathig A: Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf

- 14 Mae'r thema hon yn nodi'r safonau sy'n ymwneud â chyfathrebu, ffurfio partneriaethau effeithiol â chleifion, a chydsyniad. Rhaid i gleifion fod wrth wraidd gofal iechyd a rhaid iddynt dderbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal y maen nhw'n ei gael. Mae'r safonau hyn yn cefnogi perthnasoedd therapiwtig sy'n seiliedig ar gyfathrebu, ymddiriedaeth a hyder da mewn osteopathiaid a'r proffesiwn osteopathig.

A1

Rhaid i chi wrando ar gleifion a pharchu eu hunigoliaeth, eu pryderon a'u dewisiadau. Rhaid i chi fod yn gwrtais ac yn ystyriol i gleifion a'u trin ag urddas a chwarteisi.

A2

Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chleifion, gan addasu eich dull o gyfathrebu i ystyried eu hanghenion penodol a chynorthwyo cleifion i fynegi wrthyhych beth sy'n bwysig iddynt.

A3

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y maent ei heisiau neu ei hangen i gleifion mewn modd dealladwy.

A4

Rhaid i chi gael cydsyniad dilys cyn cyflawni pob agwedd ar archwiliad a thriniaeth a'i gofnodi fel y bo'n briodol.

A5

Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu amdanynt eu hunain er mwyn iddynt wella a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

A6

Rhaid i chi barchu urddas a phreifatrwydd eich cleifion.

A7

Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd yn niweidio gofal eich cleifion.

- 15 Bydd myfyrwyr osteopathig yn cael eu cynorthwyo i wrando ar gleifion a chyfathrebu â nhw yn y ffordd orau a sut i gael caniatâd fel rhan o'u cwrs. Wrth ddatblygu'r ymddygiad a'r gwerthoedd proffesiynol hyn, rhaid i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Gwrando ar gleifion, parchu eu barn a'u dewisiadau – gan ystyried rhwystrau i gyfathrebu a gofyn am gymorth i gyfathrebu'n effeithiol.
- Bod yn onest pan nad ydynt yn gwybod rhywbeth a gwneud eu gorau i ddarganfod sut i ymateb i gwestiynau.
- Ymgysylltu'n llawn â'r cwrs drwy fynychu gweithgareddau addysgol, gan gynnwys darlithoedd, seminarau a lleoliadau, a thrwy gwblhau gwaith cwrs.
- Gwrando ac ymateb yn adeiladol i gyngor ac adborth gwybodus gan addysgwyr, cyd-fyfyrwyr a chydweithwyr.
- Bod yn gwrtais ac yn ystyriol ac ymddwyn yn briodol bob amser gan gynnwys yn ystod dosbarthiadau, sesiynau ymarferol a chlinigau, gwrando a chyfathrebu'n briodol a pharchu eu hurddas a'u preifatrwydd eu hunain, myfyrwyr eraill, staff a chleifion.
- Trin cleifion yn deg a chyda pharch, ni waeth beth fo'u barn nhw eu hunain am eu dewisiadau mewn bywyd neu eu credoau.

Enghreifftiau o ymddygiad myfyrrwyr a allai fod yn destun pryder

- 16 Mae ymddygiad sy'n destun pryder yn cynnwys lle mae myfyrrwr:
- Wedi dangos sgiliau cyfathrebu gwael neu amhriodol (gan gynnwys anghwrteisi neu ddiffyg ymateb), a allai ddigwydd gyda chleifion, cyd-fyfyrrwyr neu staff.
 - Wedi methu â chael caniatâd gan glaf cyn ei drin, neu wedi cyflawni technegau osteopathig ar gydweithwyr heb eu caniatâd.
 - Wedi diystyru gwerthoedd claf, neu wedi ceisio gorfodi ei werthoedd neu greddau ei hun ar y claf.
 - Wedi methu â dilyn cyfarwyddiadau'r addysgwyr mewn dosbarthiadau ymarferol, neu wrth drin cleifion.
 - Wedi dangos agwedd gyson wael tuag at ofal cleifion, neu anwybyddu lles cydweithwyr.
 - Wedi methu â pharchu urddas a phreifatwydd ei gleifion yn gyson.
 - Wedi gwneud sylwadau amhriodol am gleifion neu gydweithwyr.
 - Wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n amhriodol â chleifion neu eraill.

Thema Safonau Ymarfer Osteopathig B: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- 17 Rhaid i bob osteopath feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi eu hymarfer fel gweithwyr gofal iechyd sylfaenol, a rhaid iddynt eu cynnal a'u datblygu trwy gydol eu gyrfaoedd. Rhaid iddynt weithio o fewn terfynau eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad bob amser. Mae'r safonau yn y thema hon yn nodi'r gofynion yn hyn o beth.

B1 Rhaid i chi feddu ar wybodaeth a sgiliau digonol a phriodol, a gallu eu cymhwyso, i gefnogi eich gwaith fel osteopath.

B2 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd.

B3 Rhaid i chi sicrhau bod gennych y wybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol diweddaraf.

B4 Rhaid i chi allu dadansoddi a myfyrio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'ch ymarfer er mwyn gwella gofal eich cleifion.

- 18 Bydd myfyrrwyr yn cael eu cynorthwyo i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy gydol eu cwrs.

Rhaid i fyfyrrwyr:

- Ystyried a gweithredu o fewn y terfynau ar gyfer eu cymhwysedd a gofyn am help pan fo angen pan fyddant yn ansicr, neu os ydynt yn teimlo bod angen mwy o oruchwyliaeth arny'n nhw neu fyfyrrwyr eraill yn enwedig wrth ryngweithio â chleifion.
- Gwneud yn siŵr bod cleifion, gofalwyr a chydweithwyr yn ymwybodol o'u lefel cymhwysedd a'u bod yn fyfyrrwr.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthuso arferol, er enghraifft, holiaduron diwedd modiwl neu glinig neu fecanweithiau eraill ar gyfer darparu adborth i eraill.
- Myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd a ffyrdd o wella perfformiad

Enghreifftiau o ymddygiad myfyrwyr a allai fod yn destun pryder

- 19 Mae ymddygiad sy'n destun pryder yn cynnwys lle mae myfyriwr:
- Wedi dangos ymrwymiad gwael i'w gynnydd academaidd a'i ymgysylltiad â'i raglen astudio.
 - Wedi dangos diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch hyd a lled ei wybodaeth a'i gymhwysedd ei hun.

Thema Safonau Ymarfer Osteopathig C: Diogelwch ac Ansawdd wrth Ymarfer

- 20 Mae'n rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel i gleifion. Mae'r thema hon yn nodi'r safonau mewn perthynas â darparu gofal, gan gynnwys dulliau gwerthuso a rheoli, cadw cofnodion, diogelu cleifion, ac iechyd y cyhoedd.

C1

Rhaid i chi allu gwerthuso cleifion yn osteopathig a darparu gofal osteopathig diogel, cymwys a phriodol i'ch cleifion.

C2

Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir, yn ddarllenadwy ac wedi'u cwblhau'n brydlon.

C3

Rhaid i chi ymateb yn effeithiol ac yn briodol i geisiadau am ddeunydd ysgrifenedig a data.

C4

Rhaid i chi roi camau ar waith i gadw cleifion rhag niwed.

C5

Rhaid i chi sicrhau bod eich ymarfer yn ddiogel, yn lân ac yn lanwaith, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

C6

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rôl ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i gyfrannu at wella iechyd a lles eich cleifion.

- 21 Bydd myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn ystod eu cwrs.

Rhaid i fyfyrwyr:

- Wybod sut i leisio pryderon.
- Lleisio pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn brydlon gan ddefnyddio polisiau eu darparwr addysg osteopathig eu hunain lle bo modd.
- Gwneud unrhyw nodiadau'n brydlon gan gynnwys nodiadau cleifion.
- Cydymffurfio â gofynion ynghylch rheoli heintiau a hylendid.

Enghreifftiau o ymddygiad myfyrwyr a allai fod yn destun pryder

- 22 Mae ymddygiad sy'n destun pryder yn cynnwys lle mae myfyriwr:
- Heb gadw cofnodion cleifion llawn a chyflawn yn unol â gofynion ei ddarparwr, neu wedi creu cofnodion ffug mewn unrhyw ffordd.
 - Darparu triniaeth i gydweithwyr neu eraill heb oruchwyliaeth ddigonol.
 - Heb fodloni gofynion y darparwr addysg o ran mesurau rheoli heintiau a hylendid.

Thema Safonau Ymarfer Osteopathig D: Proffesiynoldeb

23 Mae'n rhaid i osteopathiaid weithredu gyda gonestrwydd a chywirdeb a chynnal safonau uchel o ymddygiad proffesiynol a phersonol i sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae'r safonau yn y thema hon yn ymdrin â materion ac ymddygiad gan gynnwys sefydlu ffiniau proffesiynol clir gyda chleifion, dyletswydd gonestrwydd, a rheoli gwybodaeth gyfrinachol am gleifion. Mae'r rhain yn cyfrannu at sicrhau bod ymddiriedaeth yn cael ei sefydlu a'i chynnal yn y berthynas therapiwtig.

D1	Rhaid i chi weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb yn eich ymarfer proffesiynol.
D2	Rhaid i chi sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol clir gyda chleifion, a rhaid i chi beidio â chamddefnyddio eich statws proffesiynol a'r swydd gyfrifol fel osteopath.
D3	Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion, gan gyflawni eich dyletswydd gonestrwydd.
D4	Rhaid i chi gael polisi ar waith ar gyfer rheoli cwynion gan gleifion, ac ar gyfer ymateb yn gyflym ac yn briodol i unrhyw gwynion a wneir.
D5	Rhaid i chi barchu hawliau eich cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd, a chynnal a diogelu gwybodaeth cleifion yn effeithiol.
D6	Rhaid i chi drin cleifion yn deg a chydabod amrywiaeth a gwerthoedd unigolion. Rhaid i chi gydymffurfio â deddfau cydraddoldeb a gwrthwahananiaethol.
D7	Rhaid i chi gynnal enw da'r proffesiwn bob amser drwy eich ymddygiad, yn y gweithle a thu allan i'r gweithle.
D8	Rhaid i chi fod yn onest a dibynadwy yn eich trafodion ariannol, boed broffesiynol neu bersonol.
D9	Rhaid i chi gefnogi cydweithwyr a chydweithio â nhw er mwyn gwella gofal i gleifion.
D10	Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, er mwyn sicrhau'r gofal gorau i gleifion.
D11	Rhaid i chi sicrhau nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar eich asesiad eich hun o'r risg i gleifion.
D12	Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ynglŷn ag unrhyw wybodaeth arwyddocaol ynghylch eich ymddygiad a'ch cymhwysedd, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad neu geisiadau am wybodaeth a chydymffurfio â phob gofyniad rheoleiddiol.

24 Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, moeseg a'r gwerthoedd hyn yn ystod eu cwrs. Rhaid i fyfyrwyr:

- Fod yn onest wrth gyfathrebu â'u darparwr addysg, staff, cydweithwyr a chleifion a gwneud yn siŵr bod y wybodaeth y maen nhw'n ei darparu yn gywir.
- Peidio â dweud eu bod wedi gwneud rhywbeth os nad ydynt wedi gwneud hynny (e.e. dweud eu bod wedi mynychu sesiynau addysgu pan nad ydynt wedi gwneud hynny).
- Peidio â llên-ladrata (cyflwyno gwaith pobl eraill fel eu gwaith eu hunain, neu eu gwaith eu hunain a aseswyd yn flaenorol fel gwaith newydd.)
- Cynnal perthnasoedd a ffiniau proffesiynol gyda chleifion, addysgwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Gofyn am gyngor pan fyddant yn poeni nad yw rhywbeth wedi mynd yn ôl y disgwyl gyda chlaf neu y gallai hynny fod wedi digwydd.
- Parchu cyfrinachedd cleifion, peidio byth â thrafod claf mewn man cyhoeddus nac ar y cyfryngau cymdeithasol a pheidio byth â thrafod gwybodaeth y gellir ei hadnabod am gleifion heb ganiatâd.
- Codi llais pan fyddant yn poeni am fwlio, aflonyddu ac ymddygiad hiliol neu wahaniaethol.
- Osgoi gwneud pethau yn eu bywyd personol a fydd yn tanseilio'r hyder sydd gan gleifion yn y proffesiwn osteopathig. Er enghraifft: ystyried negeseuon cyfryngau cymdeithasol, ymddygiad wrth gymdeithasu ac ymddygiad gyda phobl eraill.

Enghreifftiau o ymddygiad myfyrwyr a allai fod yn destun pryder

25 Mae ymddygiad sy'n destun pryder yn cynnwys lle gall myfyrwr fod wedi:

- Dangos diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y gallai ei iechyd ei hun effeithio ar ofal cleifion.
- Methu â chydymffurfio â dyletswydd gonestrwydd pe bai rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal osteopathig claf – byddai hyn yn golygu cuddio problemau oddi wrth glaf yn ogystal â staff addysgu.
- Methu â pharchu cyfrinachedd claf.
- Siarad yn amhroffesiynol am gyfraniad cydweithwyr a darparwyr gofal iechyd eraill.
- Gweithredu'n anonest, er enghraifft, gwneud honiadau anonest am gymwysterau, profiad, cofnodion troseddol ac ati.
- Methu â chadw ffiniau proffesiynol priodol gyda chleifion a thiworiaid.
- Twyllo mewn asesiad, gan gynnwys llên-ladrata gwaith academaidd.
- Ymddwyn mewn modd a fyddai'n debygol o ddwyn anfri ar enw da'r proffesiwn gan gynnwys ymddwyn neu bostio ar-lein mewn modd sy'n bwlio, yn aflonyddu, yn hiliol neu'n wahaniaethol.

5 Cefnogi a galluogi ymddygiad proffesiynol i fyfyrwyr

Rôl y darparwyr addysg osteopathig

- 26 Mae darparwyr addysg osteopathig yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno cwricwla sy'n sicrhau bod cymwysterau osteopathig a gydnabyddir yn bodloni safonau Cyngor. Mae cymwysterau cydnabyddedig yn galluogi myfyrwyr i wneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor ac i ymarfer fel osteopathiaid yn y Deyrnas Unedig.
- 27 Dylai deialog barhaus am broffesiynoldeb fod yn elfen gyson gydol addysg cyn-gofrestru osteopathig i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni'r Canlyniadau Graddedig. Fel rhan o'r canlyniadau hyn, mae'n rhaid i fyfyrwyr: 'Ymarfer yn unol â'r egwyddorion a'r safonau a nodir yn y Safonau Ymarfer Osteopathig a'r canllawiau cysylltiedig a gyhoeddir o bryd i'w gilydd, a deall sut i weithio yng nghyd-destun ansicrwydd, gan ddefnyddio'r safonau a ffynonellau gwybodaeth eraill i lywio barn broffesiynol a phenderfyniadau mewn partneriaeth â chleifion.'
- 28 Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig fodloni'r **Safonau Addysg a Hyfforddiant** er mwyn gallu darparu 'cymwysterau cydnabyddedig'. Mae hyn yn cynnwys:

Diwylliant Dysgu

- 29 Rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos:
- Mae gan y darparwr addysgol ddiwylliant gofalgwr a thosturiol sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelwch a lles myfyrwyr, cleifion, addysgwyr a staff, ac sy'n ymgorffori'r Safonau Ymarfer Osteopathig.
 - Mae'n meithrin ac yn cynnal diwylliant o fod yn agored, gonestrwydd, cynhwysiant a pharch at ei gilydd rhwng staff, myfyrwyr a chleifion.
 - Mae'r diwylliant dysgu yn deg, yn ddiduedd, yn gynhwysol ac yn dryloyw, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o gynhwysiant, addasiadau rhesymol a rhagweld anghenion unigolion amrywiol), rhaid iddo fodloni gofynion unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a rhaid iddo fod yn gefnogol ac yn groesawgar.
 - Mae prosesau ar waith i nodi ac ymateb i faterion a allai effeithio ar ddiogelwch, hygyrchedd neu ansawdd yr amgylchedd dysgu, ac i fyfyrwyr ar bethau sy'n mynd o'i le a dysgu ganddynt.
 - Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu fel dysgwyr ac fel gweithwyr proffesiynol yn ystod eu haddysg.
 - Maen nhw'n hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes wrth ymarfer i fyfyrwyr a staff, gan annog dysgu gan ei gilydd, a sicrhau bod hawl i herio'n ddiogel, heb ddiodeff yn sgil hynny.

Myfyrwyr

- 30 Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig sicrhau a gallu dangos bod myfyrwyr:
- Yn cael gwybodaeth glir a chywir am y cwricwlwm, dulliau addysgu, dysgu ac asesu a'r polisiau a'r prosesau sy'n berthnasol i'w rhaglen.
 - Yn cael mynediad at gymorth effeithiol ar gyfer eu hanghenion academaidd a lles i gefnogi eu datblygiad fel **Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd** myfyriol, ymreolaethol a gofalgar.
 - Yn cael eu hanghenion amrywiol wedi'u parchu a'u hystyried ym mhob agwedd ar y rhaglen **Ganllawiau'r Cyngor am Reoli Iechyd ac Anabledd**.
 - Yn derbyn adborth rheolaidd ac adeiladol i gefnogi eu cynnydd drwy'r rhaglen, ac i hwyluso ac annog ymarfer myfyriol.
 - Yn cael cyfle i roi adborth rheolaidd ar bob agwedd ar eu rhaglen, ac i ymateb yn effeithiol i'r adborth hwn.
 - Yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael llais gweithredol yn y darparwr addysg.

Profiad clinigol

- 31 Rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos:
- Y darperir profiad clinigol trwy amrywiaeth o fecanweithiau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cyflawni'r canlyniadau clinigol a nodir yn y Canlyniadau Graddedig ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig.
 - Bod yna ddulliau effeithiol o sicrhau bod myfyrwyr yn cael mynediad digonol at y profiad clinigol sydd ei angen i ddatblygu ac integreiddio eu gwybodaeth a'u sgiliau, a bodloni canlyniadau'r rhaglen, er mwyn gallu cyflawni'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn ddigonol.

6 Rôl y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

- 32 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn rheoleiddio ymarfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig. Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, ei brif bwrpas yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd ym mhroffesiwn osteopathi; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn drwy:
- Gadw'r Gofrestr o bawb a ganiateir i ymarfer osteopathi yn y DU.
 - Gosod, monitro a datblygu safonau hyfforddiant, ymarfer ac ymddygiad osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus.
 - Gosod a monitro safonau ar gyfer ansawdd addysg osteopathig a'u sicrhau.
 - Helpu cleifion ac eraill sydd â phryderon am osteopath. Mae gennym y pŵer i gyfyngu ar gofrestru neu dynnu unrhyw osteopath sy'n anaddas i ymarfer oddi ar y gofrestr. Fel corff rheoleiddio rydym wedi ymrwymo i sicrhau proffesiwn amrywiol a chynhwysol, amgylcheddau addysg amrywiol a chynhwysol a chyfle cyfartal i bob ymgeisydd a myfyriwr osteopathi.
- 33 Rôl y Cyngor yw cefnogi myfyrwyr drwy:
- Sicrhau bod canlyniadau clir i raddedigion a darparwyr addysg osteopathig eu bodloni, fel y nodir yn y Canlyniadau a'r Safonau Graddedig ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Cynlluniwyd y canlyniadau hyn ar y cyd â chleifion, myfyrwyr, osteopathiaid a rhanddeiliaid eraill.
 - Sicrhau ansawdd pob darparwr addysg drwy gasglu tystiolaeth i lywio eu penderfyniadau gan ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys ymweliadau â phob darparwr, monitro adroddiadau blynyddol, a chasglu adborth gan arholwyr allanol, myfyrwyr, staff a chleifion. Os na fodlonir safonau'r Cyngor, rhaid i'r Cyngor gymryd camau i unioni hynny neu dynnu cydnabyddiaeth darparwyr addysg yn ôl.
 - Ymweld â myfyrwyr mewn darparwyr addysg osteopathig i drafod rôl y rheoleiddiwr, agweddau ar broffesiynoldeb a gweithredu'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn effeithiol.
 - Darparu cefnogaeth bwrsadol ar broblemau ac ymholiadau moesegol.
 - Gweithredu proses bryderon i fyfyrwyr, cleifion a staff sydd â phryderon am ansawdd y cwrs a'i allu i fodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig.
- 34 Ni ddylid dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig i fyfyrwyr pan fydd problemau addaswydd i ymarfer wedi'u codi neu'n cael eu hystyried. Os bydd problemau addaswydd i ymarfer myfyriwr yn codi yn union cyn dyfarnu'r cymhwyster, dylid bod yn ofalus o ran sut i gynorthwyo'r myfyriwr i wella cyn graddio. Gallai hyn gynnwys cyfnod estynedig cyn graddio, er enghraifft, drwy ailsefyll blwyddyn neu fodiwl penodol. Drwy alluogi myfyriwr i raddio gyda chymhwyster cydnabyddedig, mae darparwr osteopathig yn datgan bod myfyriwr yn addas i ymarfer fel osteopath.

- 35 Mae dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig mewn osteopathi, gan ddarparwr addysg osteopathig, yn golygu bod y deiliad yn gallu ymarfer heb oruchwyliaeth i'r safonau a ddisgwylir yn Safonau Ymarfer Osteopathig y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys safonau proffesiynol, moesegol, cymhwysedd a pherfformiad felly mae dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig yn golygu bod y myfyriwr yn addas i ymarfer. Pan fo myfyriwr wedi derbyn cosb o ganlyniad i broses addasrwydd i ymarfer myfyriwr, hysbysir y Cyngor Osteopathig Cyffredinol am hyn fel rhan o broses adrodd a monitro flynyddol y darparwr addysg. Nid yw hyn yn atal y myfyriwr hwnnw rhag cael ei gofrestru fel osteopath yn y pen draw os yw'n mynd ymlaen i ennill Cymhwyster Cydnabyddedig, ond mae'n gweithredu fel gwiriad pellach i sicrhau mai dim ond y rhai sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad angenrheidiol sy'n gallu ymuno â'r gofrestr ac ymarfer fel osteopath.
- 36 Unwaith y bydd cymhwyster cydnabyddedig wedi'i ddyfarnu, gall y deiliad wneud cais i gofrestru a chael ei gynnwys ar Gofrestr y Cyngor, yn amodol ar fodloni gofynion cymeriad ac iechyd. Os nad oes gwybodaeth ychwanegol ar gael i'r Cyngor, fel arfer ni fyddai'n disgwyl gwrthod cofrestru i berson sydd wedi derbyn cymhwyster cydnabyddedig.

Cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

- 37 Mae dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig yn dangos bod y darparwr addysg osteopathig yn ystyried bod y sawl sydd wedi graddio yn gallu ymarfer yn unol â'r Safonau Ymarfer Osteopathig. Fodd bynnag, os darganfyddir gwybodaeth ychwanegol, nad yw'n hysbys i'r darparwr, am iechyd neu gymeriad yr ymgeisydd rhwng dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig a'r cais i gofrestru, bydd y Cofrestrydd yn ystyried y wybodaeth hon ar wahân yng ngoleuni'r safonau ymddygiad a chymhwysedd presennol sydd yn y Safonau Ymarfer Osteopathig.
- 38 Fel rhan o'r cais i gofrestru, rhaid i'r ymgeisydd ddatgan:
- unrhyw gyhuddiadau neu euogfarnau troseddol
 - p'un a ydyw wedi bod yn rhan o unrhyw achos sifil
 - p'un a ydyw wedi cael ei dynnu oddi ar unrhyw Gofrestr broffesiynol neu reoleiddiol arall.
- 39 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw gollfarnau, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr gael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel rhan o'i gais i gofrestru. Os bydd gwiriad DBS manylach yn datgelu rhybuddion neu euogfarnau nad ydynt wedi'u datgan, gofynnir i ymgeiswyr egluro'n ysgrifenedig yr amgylchiadau a arweiniodd at gael rhybudd. Yna bydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried ymhellach gan y Cofrestrydd cyn gwneud penderfyniad ynghylch cofrestru.
- 40 Mae geirda iechyd gan feddyg yn ofynnol ar gyfer **cais i gofrestru**, a geirda cymeriad gan berson â statws proffesiynol sydd wedi adnabod yr ymgeisydd am bedair blynedd o leiaf.

7 Addaswydd i ymarfer myfyrwyr: materion i'w hystyried

- 41 Mae addaswydd i ymarfer myfyriwr yn ymwneud â diogelwch cleifion a'r ymddiriedaeth mae'r cyhoedd yn ei roi yn y proffesiwn, felly dylid defnyddio gweithdrefnau'n briodol. Ni ddylai'r broses a'r canlyniadau mewn gweithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyrwyr fod yn gosb i'r myfyriwr.
- 42 Dylai darparwyr addysg osteopathig sicrhau bod canllawiau'r Cyngor ar addaswydd i ymarfer myfyrwyr – ynghyd ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y darparwr ei hun, gan gynnwys ei bolisiau, datganiadau a gweithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyrwyr – yn cael eu cyhoeddi a'u dwyn i sylw myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a staff.
- 43 Wrth feddwl am weithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyrwyr, naill ai ar gamau cyn-glinigol neu glinigol eu rhaglenni bydd materion i'w hystyried yn cynnwys rhai a allai effeithio ar:
- Ddiogelwch cleifion.
 - Yr ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi yn ymddygiad y proffesiwn ym mywydau proffesiynol a phersonol y myfyriwr. Ni ddylai'r broses a'r canlyniadau fod yn gosb i'r myfyriwr.
 - Mae'n bwysig ystyried hefyd a yw'r mater yn codi pryderon am gyflyrau iechyd neu anabledd y gallai fod angen addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Er enghraifft, gall myfyrwyr sy'n cael anawsterau gyda'u hiechyd ddangos ymddygiad amhroffesiynol sy'n codi pryderon. Fodd bynnag, gall y patrymau hyn fod yn symptomatig o broblem arall a allai fod yn arwydd cynnar o fater addaswydd i ymarfer mwy sylweddol yn sgil camymddwyn.

Pryderon lefel isel

- 44 Gall pryderon lefel isel gael eu codi gan amrywiaeth o ffynonellau, e.e. myfyrwyr neu addysgwyr neu gleifion. Gall y mathau hyn o bryderon gynnwys peidio mynd i ddarlithoedd yn aml, bod yn hwyr yn mynd i ddarlithoedd, seminarau neu glinigol neu gyflwyno gwaith cwrs yn hwyr, ac anallu (yng nghyd-destun y disgwyliadau ar fyfyrwyr ar y cam hwnnw o'u cwrs) i fodloni gofyniad penodol y Safonau Ymarfer Osteopathig ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau.
- 45 Mae'n bwysig trafod, mynd i'r afael â, cofnodi a monitro'r mathau hyn o bryderon fel y gellir unioni ymddygiad amhroffesiynol yn gynnar cyn iddo arwain at broblemau addaswydd i ymarfer arwyddocaol.
- 46 Dylai fod gan ddarparwyr addysg osteopathig bolisiau clir ynghylch nodi, rheoli a monitro'r problemau hyn a dylai hyn fod yn glir i staff a myfyrwyr. Dylid cyfiawnhau'r canlyniadau yn glir i fyfyrwyr.

- 47 Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn allweddol i sicrhau bod pob myfyriwr, o ddechrau ei gwrs, yn gyfarwydd â'r safonau ymddygiad proffesiynol a phersonol a ddisgwylir ganddo a'r gwerthoedd sy'n sail i'r safonau hyn. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i astudio osteopathi yn y Deyrnas Unedig i ddeall rhai o agweddau diwylliannol gweithio ac astudio yn y DU. Mae gan ddarparwyr addysg a'r myfyrwyr eu hunain ddyletswydd i ymddwyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw i ddatblygu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol.

Enghraifft achos 1

Cyrhaeddodd myfyriwr pedwaredd flwyddyn yn hwyr dro ar ôl tro ar gyfer clinig, ac ar ddau achlysur nid oedd yno i drin claf. Roedd cydweithwyr y myfyriwr yn anhapus ynghylch gofod gwneud ei waith ar ei ran.

Ar ôl i rywun gael gair ag ef am hyn, aeth y myfyriwr i Ffrainc am benwythnos hir, ac ni wnaeth ddod i'r clinig ar y dydd Llun canlynol o gwbl, gan feio streic fferi.

Cyfarfu'r Pennaeth Ymarfer Clinigol â'r myfyriwr, a rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol iddo. Cafodd ymddygiad y myfyriwr ei fonitro dros y tri mis nesaf, a gwelwyd gwelliant amlwg.

- 48 Mae darparu'r cymorth cywir i fyfyrwyr yn hanfodol i sicrhau bod ymddygiad amhriodol neu effaith cyflyrau iechyd yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl a bod myfyrwyr yn cael cymorth priodol neu eu cyfeirio at gymorth priodol i unioni hyn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- bod y diwylliant yn golygu bod staff a myfyrwyr sy'n gwneud camgymeriadau neu nad ydynt yn gwybod sut i fynd i'r afael â sefyllfa benodol yn briodol yn cael eu croesawu, eu hannog a'u cefnogi i godi llais a gofyn am gyngor a chymorth.
- Rhoddir gwybodaeth glir a chywir i fyfyrwyr am y cwricwlwm, dulliau addysgu, dysgu ac asesu a'r polisiau a'r prosesau sy'n berthnasol i'w rhaglen.
- Mae gan fyfyrwyr fynediad at gymorth effeithiol ar gyfer eu hanghenion academaidd a lles i gefnogi eu datblygiad fel Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd ymreolaethol, myfyriol a gofalgar.
- Mae anghenion amrywiol myfyrwyr yn cael eu parchu a'u hystyried ym mhob agwedd ar y rhaglen (ystyriwch Ganllawiau'r Cyngor am Reoli lechyd ac Anabledd).
- Mae myfyrwyr yn derbyn adborth rheolaidd ac adeiladol i gefnogi eu cynnydd drwy'r rhaglen, ac i hwyluso ac annog ymarfer myfyriol.
- Caiff myfyrwyr gyfle i roi adborth rheolaidd ar bob agwedd ar eu rhaglen, ac i ymateb yn effeithiol i'r adborth hwn.
- Caiff myfyrwyr eu cefnogi a'u hannog i gael llais gweithredol yn y darparwr addysg.
- Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chreu a chyflwyno rhaglenni wedi'u hyfforddi ym mhob polisi yn y darparwr addysg (gan gynnwys polisiau i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant), ac maen nhw'n gefnogol, yn hygyrch ac yn gallu cyflawni eu rolau yn effeithiol.

Cychwyn achos addaswydd i ymarfer myfyriwr

- 49 Pwrpas polisiâu a gweithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyrwyr yw sicrhau diogelwch cleifion a bod yr ymddiriedaeth a roddir gan y cyhoedd yn y proffesiwn yn cael ei chynnal, nid ydynt i fod yn gosb am ymddygiad penodol. Fel arfer mae dealltwriaeth o ymddygiad amhroffesiynol yn rhagofyniad i barhau i fod yn fyfyrwr proffesiynol gofal iechyd. Er bod argymhelliaid ar gyfer diarddel yn ganlyniad posibl i weithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyrwyr, fel arfer byddai'r pwyslais ar gynorthwyo myfyrwyr i fod yn addas i ymarfer.
- 50 Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig sicrhau bod ganddynt brosesau priodol i reoli problemau addaswydd i ymarfer myfyrwyr fel y gallant sicrhau bod dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig yn golygu bod y deiliad yn addas i ymarfer. Mae'r canllawiau tua diwedd y ddogfen hon yn amlinellu sut y gallai darparwyr addysg osteopathig reoli prosesau addaswydd i ymarfer myfyrwyr i fodloni'r gofyniad hwn.

Enghraifft achos 2

Roedd myfyriwr blwyddyn gyntaf yn cyrraedd yn hwyr dro ar ôl tro ar gyfer darlithoedd, ac yn aml, ddim yn mynychu o gwbl. Ni wnaeth gyflwyno ei ddarn cyntaf o waith cwrs ar ddiwedd y tymor cyntaf. Mewn cyfarfod gyda'i diwtor personol a'r swyddog lles myfyrwyr, eglurwyd pam fod hwn yn fater difrifol, a'r goblygiadau y mae presenoldeb gwael yn debygol o'u cael ar ei ganlyniadau diwedd blwyddyn.

Dywedodd mai dyma'r tro cyntaf iddo fyw oddi cartref, a'i fod wedi mynd i'r arfer o aros ar ei draed yn hwyr gyda'r canlyniad ei fod yn cael trafferth codi yn y bore. Roedd wedi cwblhau'r traethawd erbyn hyn, ac yn sicr ei fod eisiau aros ar y rhaglen a dod yn osteopath.

Cafodd presenoldeb y myfyriwr ei fonitro dros y mis nesaf, a threfnwyd cyfarfod ar gyfer diwedd y cyfnod hwn i adolygu cynnydd. Roedd ei bresenoldeb wedi gwella'n sylweddol.

Enghraifft achos 3

Cyflwynodd arholwr gŵyn am fyfyrwr oherwydd ymddygiad amhriodol yn ystod asesiad. Roedd y myfyriwr wedi bod yn amddiffynnol iawn wrth gael ei holi, a gwnaeth sylw ymosodol a sarcastig ar y diwedd, gan awgrymu bod yr arholwr wedi bod yn rhagfarnllyd, nad oedd yn hoffi'r myfyriwr, a'i fod yn mynd i'w fethu beth bynnag.

Mewn gwirionedd, roedd y myfyriwr wedi pasio'r asesiad. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r myfyriwr lle trafodwyd ei ymddygiad a'i agwedd amhriodol. Ymddiheurodd y myfyriwr, a dywedodd mai nerfau eithafol ynghylch arholiadau oedd wedi ysgogi'r ymateb. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

Bywydau personol a'r effaith ar addasrwydd i ymarfer

- 51 Gan fod myfyrwyr wedi dewis ymuno â phroffesiwn gofal iechyd a reoleiddir, rhaid iddynt ymddwyn mewn ffordd onest a dibynadwy o ddechrau eu cwrs, gan ystyried effeithiau eu gweithredoedd ar eraill.
- 52 Yn ogystal â chymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol y cyfeirir atynt yn arbennig yn yr adrannau ar Safonau Ymarfer Osteopathig, bydd bywydau personol myfyrwyr yn cyfrif hefyd a gallant effeithio ar eu haddasrwydd i ymarfer.
- 53 Yn y tabl isod, rydym wedi nodi meysydd pryder posibl a allai godi ym mywyd personol myfyriwr, gydag enghreifftiau o'r mathau o broblemau a allai fod yn berthnasol i bob categori. Nid yw'r enghreifftiau a roddir yn gynhwysfawr, cânt eu darparu i ddangos y mathau o broblemau a allai arwain at gwestiwn ynghylch addasrwydd i ymarfer myfyriwr.

Meysydd pryder posibl a allai godi ym mywyd personol myfyriwr

Meysydd pryder posibl	Enghreifftiau o broblemau
Euogfarnau troseddol	Dwyn Twyll Troseddau rhywiol
Ymddygiad ymosodol, treisgar neu fygythiol	Ymosod Cam-drin Bwlio neu ymddygiad bygythiol Ymddygiad treisgar
Anonestrwydd	Ffugio CVs neu ddogfennau eraill
Ymddygiad neu agweddau amhroffesiynol	Rhoi negeseuon neu luniau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, sylwadau hiliol, misogynistaidd, homoffobig neu negyddol am anabledd)
Pryderon iechyd, gan gynnwys problemau iechyd meddwl	Er nad yw cyflyrau iechyd ynddynt eu hunain yn ddigonol fel arfer i gwestiynu addasrwydd i ymarfer myfyriwr, gallai diffyg ymwybyddiaeth am y rhain a sut y gallai'r rhain effeithio ar ofal cleifion fod yn destun pryder. Gallai hyn gynnwys methu â cheisio cymorth meddygol priodol, neu fanteisio ar driniaeth neu ofal meddygol.

Enghraifft achos 4

Daeth i'r amlwg bod myfyriwr ail flwyddyn wedi derbyn gwaharddiad gyrru am flwyddyn yn ddiweddar, ar ôl cael ei ddal yn gyrru dros y terfyn alcohol cyfreithiol. Roedd y myfyriwr wedi methu â datgelu hyn i'r darparwr addysg osteopathig. Pan glywodd tiwtor clinig fyfyrwyr yn ei drafod, roedd y myfyriwr dan sylw wedi ceisio ei darbwyllio i beidio â rhoi gwybod i dîm rheoli'r darparwr addysg.

Cychwynnwyd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, a chyfeiriwyd yr achos at banel. Canfu'r panel yr amharwyd ar addasrwydd i ymarfer. Er ei bod yn amlwg bod y gwaharddiad gyrru yn broblem ynddo'i hun, pryder mawr oedd methiant y myfyriwr i ddatgelu hyn, a'i ymdrechion i gelu hynny.

Argymhellodd y panel y dylid cymryd camau unioni i sicrhau bod y myfyriwr yn deall goblygiadau methu â datgelu gweithredoedd troseddol, a bod gwaith cwrs ychwanegol yn cael ei gynhyrchu i'r perwyl hwn. Caniatawyd iddo aros ar y rhaglen. Hysbyswyd y Cyngor.

Enghraifft achos 5

Hysbyswyd y tîm rheoli am fyfyrwr pedwaredd flwyddyn a oedd wedi dod i glinig yn edrych yn flêr ac yn aroglï o alcohol. Roedd yn amlwg ei fod wedi bod yn yfed amser cinio. Cafodd y myfyriwr ei wahardd o'r clinig ar unwaith. Dywedodd myfyriwr eraill eu bod yn poeni amdano, gan ei fod wedi bod yn yfed yn ormodol yn ddiweddar, ac yn ymddangos fel pe bai wedi troi cefn ar ei astudiaethau yn dilyn perthynas ddiweddar yn chwalu.

Cynhaliwyd ymchwiliad addaswydd i ymarfer, a chyfeiriwyd yr achos at banel. Cyfaddefodd y myfyriwr fod ganddo broblem alcohol, a bod y problemau perthynas diweddar wedi gwaethygu hyn. Roedd yn ceisio datrys pethau, fodd bynnag, ac wedi bod yn derbyn cwnsela, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Alcoholics Anonymous. Roedd wedi bod yn sobor am dair wythnos cyn y gwrandawriad. O ystyried ymwybyddiaeth y myfyriwr o'i broblemau a'r camau cadarnhaol yr oedd yn eu cymryd, argymhellodd y panel ei fod yn dychwelyd i'r cwrs, ond ei fod yn cael ei fonitro'n ofalus, ac yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda'r swyddog lles myfyriwr i sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd da. Hysbyswyd y Cyngor.

Enghraifft achos 6

Mae myfyriwr trydedd flwyddyn yn gweithio mewn campfa fel therapydd tylino cymwysedig. Mae darlithydd yn y darparwr addysg osteopathig yn defnyddio'r un gampfa hefyd, ac mae'n sgwrsio gyda rhywun mewn dosbarth ymarfer corff, sy'n sôn ei bod wedi bod at y myfyriwr ar gyfer tylino. Dywedodd 'roedd yn dda iawn, gan ei fod wedi ymarfer technegau osteopathig arna i hefyd'. Mae'r darlithydd yn gofyn pa fathau o dechnegau, ac yn cael gwybod bod y myfyriwr 'wedi gneud i nghefn i glicio gwpl o weithiau'.

Mae'r darlithydd yn cyfeirio hyn at y Pennaeth Clinig, ac mae ymchwiliad addaswydd i ymarfer yn cael ei gynnal. Mae'r myfyriwr yn cyfaddef iddo gyflawni dwy dechneg wthio cyflymder uchel ar y claf, ond roedd wedi dweud wrthi mai dim ond 'ymarfer' oedd hyn, gan nad oedd yn gymwys eto fel osteopath. Cyfeirir yr achos at banel, sy'n canfod bod amhariad ar addaswydd i ymarfer y myfyriwr, ond sy'n argymhell y gall barhau ar y rhaglen, gan ymgymryd â gwaith ychwanegol fel cam adferol. Mae'r myfyriwr yn dangos ymwybyddiaeth briodol o'r materion dan sylw, ac nid yw'n cyflawni unrhyw dechnegau osteopathig pellach y tu allan i'r amgylchedd addysgu.

Enghraifft achos 7

Collodd myfyriwr amser llawn yn ail flwyddyn sawl darlith a sesiwn glinigol dros gyfnod o chwe wythnos ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Gwnaed apwyntiadau gyda'r tîm lles myfyriwr na chawsant eu cadw. Pan oedd y myfyriwr yn bresennol, fe wnaeth osgoi unrhyw ymgais i drafod ei gynnydd a'i absenoldebau. Rhoddodd y tîm lles myfyriwr gynnig ar ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â'r myfyriwr i drafod a oedd unrhyw gymorth a fyddai'n ei helpu i gymryd rhan yn y broses yn well, ond ni chafwyd ymateb. Ni chafodd gwaith cwrs ei gyflwyno, neu roedd o safon wael iawn, a thros amser, daeth yr absenoldebau'n amlach ac yn fwy cyson ac ni wnaeth y myfyriwr ymateb i unrhyw ymgais i gysylltu ag ef, gweld beth oedd yn digwydd a rhoi cefnogaeth.

Cynhaliwyd proses addaswydd i ymarfer, gyda'r myfyriwr yn parhau i beidio ag ymgysylltu ag unrhyw agwedd ar hyn, ac o ganlyniad, penderfynwyd y dylid tynnu'r myfyriwr oddi ar y rhaglen.

Cynnal ffiniau proffesiynol

- 54 Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda chleifion.
- 55 Dylid eu haddysgu, cyn gynted â phosibl, am ddynameg y berthynas therapiwtig a pha mor agored i niwed yw cleifion. Rhaid i glaf deimlo'n hyderus a diogel gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac ymddiried ei fod yn gweithredu er budd y claf, gan ddarparu'r gofal gorau posibl. Gall torri ffiniau rhywiol, er enghraifft, niweidio'r ymddiriedaeth hon yn ddifrifol. Hyd yn oed fel myfyriwr, mae'n debygol y bydd gwahaniaeth pŵer rhwng ffigur 'awdurdod' yr ymarferydd a chlaf claf agored i niwed, a gallai unrhyw achos o dorri'r ffin broffesiynol hon achosi pryder.
- 56 Gall fod heriau hefyd o ran cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda staff addysgu. Gall perthnasoedd personol â staff addysgu, er enghraifft, arwain at anawsterau hefyd. Dylid rhoi canllawiau i staff a myfyrwyr darparwyr addysg osteopathig ynghylch priodoldeb perthnasoedd personol rhwng staff a myfyrwyr, a'r problemau posibl a allai ddeillio o hyn.
- 57 Bydd gan bob darparwr ei brosesau a'i bolisiau ei hun yn hyn o beth, er y bydd problemau perthnasoedd yn seiliedig ar y gwahaniaeth pŵer rhwng ffigur mewn awdurdod fel addysgwr a'r hyn a allai fod yn fyfyrwr agored i niwed yn gyson i raddau helaeth ar gyfer pob un. Gallai materion ffiniau godi mewn perthynas â chyfeillgarwch a pherthnasoedd cymdeithasol rhwng staff a myfyrwyr, yn ogystal â pherthnasoedd rhywiol.
- 58 Byddai enghreifftiau o ymddygiad a allai arwain at bryder yn cynnwys:
- datgelu neu ofyn am wybodaeth bersonol amhriodol
 - cymdeithasu gyda myfyrwyr
 - cynnal grwpiau astudio yng nghartref yr aelod staff
 - cyswllt amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol â myfyrwyr at ddibenion nad ydynt yn addysgol
- 59 Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol hefyd o bwysigrwydd cynnal ffiniau gyda'u cydweithwyr yn ystod eu hyfforddiant. Mewn cwrs lle ceir cyswllt agos â chyd-fyfyrwyr yn aml, gall y cynefindra sy'n datblygu arwain at gamweddau o ran ffiniau (weithiau'n anfwriadol). Fel arfer mae myfyrwyr yn awyddus i ymarfer technegau ar ei gilydd, ac weithiau gall hyn ddigwydd yn rhywle heblaw'r darparwr addysg, efallai yn llety'r myfyriwr ei hun. Mae hwn yn amgylchedd lle mae'n hawdd croesi ffiniau, ac a allai arwain at leisio pryderon. Dylai'r darparwr addysg osteopathig ddarparu arweiniad i fyfyrwyr ar hyn.
- 60 I fyfyrwr osteopathi, mae cynnal ffiniau proffesiynol clir gyda chleifion, cydweithwyr a staff o'r darparwr addysg yn agwedd sylfaenol ar ddatblygu ymddygiad proffesiynol. Gall torri ffiniau proffesiynol arwain at gwestiynu addasrwydd i ymarfer myfyriwr, a allai effeithio ar ei allu i barhau ar y cwrs.

Enghraifft achos 7

Mae myfyriwr pedwaredd flwyddyn yn cyd-dynnu'n dda iawn ag un o'i gleifion, sy'n 75 oed ac yn dioddef o broblemau iechyd cronig amrywiol. Mae'n sôn ei fod yn cael trafferth ymdopi â'i ardd, ac, yn ddiarwybod i'r tiwtor, mae'r myfyriwr yn cynnig galw heibio a gwneud ambell dasg iddo. Mae'n gwneud hynny, ac mae hyn yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd dros gyfnod o dri mis. Nid yw'r myfyriwr yn gofyn am unrhyw wobri ariannol am ei weithredoedd ond, adeg y Nadolig, mae'r claf yn rhoi sic am £500 iddo.

Pan ddaw merch y claf i wybod am hyn, mae'n cwyno i'r darparwr addysg osteopathig, ac mae ymchwiliad yn cael ei gynnal, gan arwain at wneud atgyfeiriad i banel addaswydd i ymarfer. Mae'r myfyriwr yn sylweddoli ei fod wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa fregus iawn trwy ddiystyru'r ffiniau gyda'r claf, er bod y bwriad yn garedig. Mae derbyn y £500, er na wnaeth ofyn amdano yn codi cwestiynau, unwaith eto, ynghylch ei farn broffesiynol a'i onestrwydd personol.

Mae'r panel yn teimlo bod y myfyriwr wedi dangos diffyg crebwyll, ond mae'n derbyn nad ceisio mantais personol oedd ei fwriad. Mae'n dangos hunanymwybyddiaeth ynghylch y materion a godwyd, ac erbyn i'r panel gyfarfod, mae eisoes wedi dychwelyd y £500 i'r claf. Caniateir i'r myfyriwr barhau â'r rhaglen gyda'r gofyniad ei fod yn gwneud gwaith ychwanegol ar ffiniau proffesiynol, ac mae'n cyfarfod â thiwtor personol yn gyson.

Enghraifft achos 8

Mae myfyriwr blwyddyn olaf yn dod ar draws claf mewn clwb nos lleol. Maen nhw'n cael sgwrs a diod gyda'i gilydd, ac yna'n dawnsio. Mae ffrind yn tynnu llun ohonyn nhw'n dawnsio gyda'i gilydd, ac yn ei lanlwytho i Facebook, gan dagio'r myfyriwr fel bod y llun yn ymddangos yn ei linell amser.

Ar y bore Llun canlynol, mae ffrind sy'n fyfyriwr yn gweld y llun Facebook pan fo yn y clinig addysgu, ac yn adnabod y claf. Mae'n gwneud sylw wrth y myfyriwr am fynd allan gyda chlaf, ac mae tiwtor clinig yn clywed hyn. Mae'r tiwtor yn gofyn beth sy'n digwydd, a dangosir y llun iddo. Mae yntau'n gwybod pwy yw'r claf hefyd, ac yn hysbysu Rheolwyr y clinig am y mater.

Mae'r myfyriwr yn honni iddynt gyfarfod yn ddamweiniol, ac er ei fod yn sylweddoli bod y llun yn edrych yn amhriodol, mae'n dweud bod eu gweithredoedd yn ddiniwed. Caiff ei atgoffa o ganllawiau'r darparwyr addysg osteopathig ar ffiniau cleifion ac mae'n gofyn i'w ffrind ddileu'r llun o Facebook. Ni chymerir unrhyw gamau pellach.

Lleisio pryderon

- 61 Dylid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gadw cleifion yn ddiogel yn gynnar yn eu cwrs. Os oes gan fyfyrwyr bryderon am ymddygiad cyd-fyfyriwr neu aelod o staff, dylid eu hannog i'w lleisio gyda'u darparwr addysg yn unol â'r polisiau perthnasol sydd eisoes ar waith. Dylai'r darparwr fod yn ymwybodol o'r heriau y gallai myfyrwyr sy'n lleisio pryderon eu hwynebu a darparu cymorth priodol iddynt. Mae'n bwysig sefydlu a chynnal diwylliant lle mae myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio pryderon o'r fath.

Enghraifft achos 9

Yfodd myfyriwr ormod o alcohol mewn parti diwedd blwyddyn, ac fe'i gwelwyd yn aflonyddu ar gyd-fyfyriwr, gan ei ddilyn i'r toiled a gafael ynddo. Ymyrrodd myfyriwr eraill, a chwyno wrth dîm rheoli'r darparwr addysg osteopathig.

Cafodd y myfyriwr ei atal wrth i ymchwiliad addaswydd i ymarfer gael ei gynnal. Yn ystod yr ymchwiliad, darganfuwyd bod y myfyriwr wedi ymddwyn mewn ffordd debyg tuag at ddau fyfyriwr arall y flwyddyn gynt.

Roedd y myfyrwyr wedi bod yn amharod i gwyno am hyn ar y pryd, ond maen nhw wedi darparu datganiadau yn awr. Cyfeiriwyd yr achos at Banel. Roedd y Panel o'r farn bod amhariad ar addaswydd i ymarfer y myfyriwr, ac argymhellodd y dylid tynnu'r myfyriwr oddi ar y cwrs.

Y ddyletswydd gonestrwydd

- 62 Mae dyletswydd gonestrwydd proffesiynol i gleifion yn berthnasol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac mae wedi'i hymgorffori mewn safonau, codau a chanllawiau. Mae'n berthnasol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda thriniaeth neu ofal, neu os oes ganddo'r potensial i achosi niwed neu ofid i'r claf.
- 63 Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor a rheoleiddwyr eraill **ddatganiad ar y cyd ynghylch dyletswydd gonestrwydd**. Cydnabyddir y bydd y cyd-destun yn amrywio'n sylweddol ar gyfer gwahanol broffesiynau.
- 64 I fyfyrwyr, bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn golygu bod yn agored ac yn onest gyda staff addysgu, yn ogystal â chleifion, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dylai darparwyr addysg fod yn glir ynghylch sut mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol i fyfyrwyr, a'u cefnogi i ymgysylltu â hyn.

8 Polisiau a gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr

- 65 Dylai darparwyr addysgol osteopathig sicrhau bod canllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar addasrwydd i ymarfer myfyrwyr – ynghyd ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y darparwr ei hun, gan gynnwys ei bolisiau, datganiadau a gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr – yn cael eu cyhoeddi a'u dwyn i sylw myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a staff.

Trafod cyfaddefiadau gyda darpar fyfyrwyr

- 66 Gall darpar fyfyrwyr ofyn am gyngor am gymwysterau cydnabyddedig osteopathig gan ddarparwr addysg osteopathig ac, yn y pen draw, gall gofrestru gyda'r Cyngor. Dylai darparwyr addysg fod yn agored ac annog darpar fyfyrwyr i drafod eu cais a derbyn arweiniad am y Safonau Ymarfer Osteopathig. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol hefyd o **Safonau Addysg a Hyfforddiant a Deilliannau i Raddedigion y Cyngor**, sy'n nodi cymhwysedd a safonau a all helpu i wneud cais priodol.
- 67 Yn seiliedig ar egwyddorion diogelu'r cyhoedd, dylai darparwyr addysg osteopathig fod â meini prawf cadarn ar waith hefyd ar gyfer ymdrin ag unrhyw broblemau a ddatgelir gan geisiadau neu ddogfennau ategol megis gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hunanddatganiadau rheolaidd.

Cyflyrau iechyd ac anableddau

- 68 Fel pob rheoleiddiwr gofal iechyd, mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo cynwysoldeb yn y proffesiwn a sicrhau y gall pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor gymryd rhan lawn mewn addysg a hyfforddiant osteopathig gydag addasiadau angenrheidiol i'w cynorthwyo i wneud hynny i helpu'r proffesiwn osteopathig i adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu yn agosach.
- 69 Nod y Cyngor yw dileu ofnau cyffredin am brosesau rheoleiddio, gan helpu pawb sy'n ymwneud ag osteopathi i drafod a deall yn well sut y gellir cynorthwyo ymarfer i fodloni'r safonau gofynnol.
- 70 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi **canllawiau i fyfyrwyr** hefyd am reoli anabledd neu amhariadau iechyd **a chanllawiau ar wahân ar gyfer darparwyr addysg osteopathig**.
- 71 Mae canllawiau'r Cyngor yn pwysleisio cyfrifoldebau cyfreithiol darparwyr addysg i gynorthwyo myfyrwyr ac yn darparu fframwaith cyson ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol. Maen nhw'n helpu darparwyr addysg hefyd, ynghyd â myfyrwyr, i wneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau lle ystyrir materion sy'n ymwneud ag iechyd ac anabledd. Dylai darparwyr addysg annog ymgeiswyr ag anableddau, amhariad penodol, cyflwr iechyd hirdymor neu niwrowahaniaeth, i ddarllen y canllawiau, a dechrau trafodaeth gyda nhw am sut i ddarparu cymorth ychwanegol i alluogi gyrfa ym maes osteopathi.

- 72 Fel rhan o'r broses dderbyn, bydd y darparwr addysg osteopathig yn asesu a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau gan fyfyrwyr ar gyfer mynediad i'r cwrs, y capasiti a'r gallu i alluogi darpar fyfyrwyr i fodloni'r safonau cymhwysedd ar ddiwedd y rhaglen, a'r potensial i fynd ati i ymarfer heb oruchwyliaeth, yn annibynnol ac yn ddiogel (gydag addasiadau rhesymol lle bo hynny'n briodol).
- 73 Gall anabledd, cyflwr iechyd neu amhariad arall ei gwneud yn amhosibl i fyfyrwr fodloni gofynion y Safonau Ymarfer Osteopathig heb gymorth. Dylid cynnig cyfle i'r myfyriwr drafod y mathau o addasiadau rhesymol a allai ei alluogi i fodloni'r safonau gofynnol yn ystod ei addysg; dylai gael cyfle hefyd i drafod y strategaethau y bydd angen iddo eu rhoi ar waith ar ôl cofrestru er mwyn hunanreoli ei anabledd neu gyflwr iechyd a sicrhau ymarfer diogel. Dylai'r trafodaethau hyn gael eu cynnal cyn gynted â phosibl yn y broses. Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyriwyr o'r fath, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau cymhwysedd os yw hyn yn bosibl. Ni ddylid gwneud addasiadau rhesymol i'r safonau eu hunain, ond i'r dull o ddysgu a'r ffordd y caiff y myfyriwr ei asesu yn erbyn y gofynion.
- 74 Os, yn dilyn trafodaethau rhwng darparwr addysg osteopathig a myfyriwr, ei bod yn ymddangos na ellir gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a fydd yn galluogi'r myfyriwr i fodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig gofynnol, mae angen ystyried opsiynau pellach. Byddai'n anghyffredin i drafodaethau o'r fath arwain at wrandawriad addasrwydd i ymarfer ffurfiol; fodd bynnag, gellir awgrymu'r cam gweithredu hwn os yw pob llwybr wedi'i ystyried, ac na all y ddwy ochr gytuno ar ffordd ymlaen.

Euogfarnau a rhybuddion blaenorol

- 75 Gall ymddygiad neu euogfarnau blaenorol effeithio ar addasrwydd posibl myfyriwr i ymarfer a'i allu i ymuno â'r cwrs o'i ddewis. Dylai darparwyr addysg osteopathig ystyried eu canllawiau eu hunain, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau sydd ar gael gan eu prifysgol ddilysu (lle mae hyn ar wahân) ac unrhyw sefydliad perthnasol arall fel y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'n ofynnol bod gan ddarparwyr brosesau penodol ar waith i weithredu'r canllawiau'n effeithiol.
- 76 Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei amgylchiadau unigol. Er mwyn annog penderfyniad cytbwys, mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn gallu cael ei hystyried gan y darparwr addysgol osteopathig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r broses dderbyn annog a chefnogi ymgeiswyr i ddatgelu'r holl wybodaeth berthnasol, ac i gydsynio i ddatgelu gwybodaeth bellach gan asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol.
- 77 Fel arfer, byddai disgwyl i fynediad gael ei wrthod i ddarpar fyfyrwyr sydd â mathau penodol o gollfarnau i raglen gymwysterau gydnabyddedig ar sail diogelwch cleifion. Gallai hyn fod yn berthnasol i bobl sydd, er enghraifft, wedi:
- cyflawni troseddau rhywiol neu dreisgar difrifol, gan arwain at euogfarnau sy'n haeddu dedfryd o garchar
 - eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ar unrhyw restr swyddogol
 - eu gwahardd rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, dan gynlluniau datgelu a gwahardd yn y DU a'r tu allan iddi.

78 Rhaid i'r darparwr addysg osteopathig benderfynu a fyddai addaswydd i ymarfer yn parhau i fod wedi'i amharu ym mhob sefyllfa. Mae'r materion sydd angen eu hystyried yn ddifrifol yn cynnwys:

- anonestrwydd, twyll neu gamliwio
- dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- camddefnyddio ymddiriedaeth neu ymddygiad amhriodol arall gyda phobl fregus
- torri cyfrinachedd
- bygythiadau i iechyd, diogelwch neu les y cyhoedd
- diystyru'r gyfraith neu'r system gofrestru yn llwyr
- gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon, yn groes i ofynion y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb.

79 Wrth wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r darparwr addysg osteopathig ystyried y ffactorau canlynol:

- Beth yw'r amgylchiadau a arweiniodd at y gollfarn hon?
- Pa mor hir yw hi ers i'r ymddygiad troseddol ddigwydd?
- Pa mor ddifrifol yw'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r gollfarn?
- A yw'r person hwn wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion mewn unrhyw awdurdodaeth neu ar unrhyw restr swyddogol?
- A oes gan yr unigolyn ddealltwriaeth o'r amgylchiadau a arweiniodd at y gollfarn?
- Pa gamau unioni a gymerwyd ganddynt?
- A yw'r dystiolaeth yn dangos bod cleifion yn dal i fod mewn perygl yn achos y person hwn?
- A ellir sicrhau lles cleifion gyda'r person hwn?
- A wnaiff yr ymddiriedaeth mae'r cyhoedd yn ei rhoi yn y proffesiwn gael ei heffeithio yn sgil derbyn y person hwn i gwrs hyfforddiant osteopathig, gan arwain at gymhwyster cydnabyddedig a chofrestru gyda'r Cyngor (yn amodol ar ofynion statudol iechyd a chymeriad)?

Enghraifft achos 10

Cyfaddefodd ymgeisydd 25 oed ei fod wedi'i ddedfrydu i chwe mis o garchar am fwrgeriaeth pan oedd yn 18 oed. Roedd yn agored iawn am yr amgylchiadau a sut yr oedd wedi ymddieithrio o'r ysgol ac wedi dod yn rhan o griw a oedd wedi annog ymddygiad troseddol. Dywedodd mai'r ddedfryd o chwe mis oedd y sioc oedd ei hangen arno, a'i fod wedi gwneud llawer o fyfyrion ar ei agwedd yn ystod ei amser yn y carchar.

Ar ôl cael ei ryddhau, fe wnaeth ddychwelyd i addysg, sefyll dau bwnc Safon Uwch ac mae wedi bod yn gweithio i elusen sy'n helpu i ailsefydlu cyn-garcharorion. Mae wedi datblygu uchelgais gref i ddod yn osteopath, ar ôl cael triniaeth yn y gorffennol yn dilyn anaf i'w gefn, ac ar ôl hynny fe wnaeth ddilyn cwrs Mynediad at Ofal Iechyd.

Roedd y darparwr addysg osteopathig yn hapus i gynnig lle iddo. Roedd yn gwbl agored am ei ymddygiad yn y gorffennol, ac yn dangos cryn hunanymwybyddiaeth. Nid oedd wedi ail-ddechrau gweithgarwch troseddol ers cael ei ryddhau dros chwe blynedd yn ôl, ac mae wedi dangos ymrwymiad i ddilyn gyrfa. Teimlwyd na fyddai euogfarn y gorffennol yn cael unrhyw effaith ar ei addaswydd presennol i ymarfer.

9 Cefnogaeth barhaus i fyfyrwyr

- 80 Dylai myfyrwyr gael eu haddysgu a'u cefnogi i ddysgu ymddygiad proffesiynol. Dylai'r addysgu bwysleisio pwysigrwydd bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau cleifion hefyd, effaith ymddygiad ar gleifion a chydweithwyr a dylai ganolbwyntio ar gyflawni gofynion y **Safonau Ymarfer Osteopathig**.
- 81 Gall llawer o faterion effeithio ar fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau, gan gynnwys materion iechyd, ariannol a theulu neu faterion cymdeithasol eraill. Pan fydd pryderon yn codi, dylai darparwyr addysg roi mynediad i'w myfyrwyr at gymorth ac addasiadau priodol i helpu i reoli'r materion hyn.
- 82 Mae'n bwysig hefyd fod myfyrwyr yn gallu ymddiried mewn person priodol yn eu darparwr addysg os oes ganddynt bryderon am eu haddasrwydd eu hunain i ymarfer. Bydd hyn yn helpu'r darparwr addysg osteopathig i roi'r cymorth a'r arweiniad cywir i fyfyrwyr.
- 83 Pan fo materion diogelwch cleifion yn codi, rhaid cyfleu hyn i'r person perthnasol yn y darparwr addysg sydd ag atebolrwydd am faterion addasrwydd i ymarfer fel y gellir ymdrin â'r mater yn ffurfiol ac yn unol â gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod diogelwch a lles cleifion yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, dylid cynnig cymorth annibynnol i'r myfyriwr law yn llaw â'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer o hyd. Dylai darparwyr addysg osteopathig feithrin amgylchedd lle mae codi llais yn cael ei annog a'i gefnogi, os teimlir bod unrhyw arfer neu ymddygiad yn cyfaddawdu addasrwydd i ymarfer unigolyn neu ddiogelwch cleifion.
- 84 Pan fydd darparwr addysg osteopathig yn dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig, mae'n cadarnhau bod y sawl sy'n graddio yn gallu ymarfer yn unol â safonau moesegol cyhoeddedig y proffesiwn osteopathig, y Safonau Ymarfer Osteopathig.

10 Canllawiau ar y broses ar gyfer achosion addasrwydd i ymarfer myfyrwyr

85 Yn ôl Safonau Addysg a Hyfforddiant y Cyngor mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg gael gweithdrefnau teg, effeithiol a thryloyw i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ymddygiad myfyrwyr a allai beryglu diogelwch y cyhoedd neu gleifion, ymddiriedaeth yn y proffesiwn, neu gwestiynu eu gallu i gyflawni'r Safonau Ymarfer Osteopathig. Yn yr adran hon rydym wedi nodi canllawiau i ddarparwyr addysg mewn perthynas â'r broses o roi achos addasrwydd i ymarfer ar waith, gan feddwl am y trothwy ar gyfer gweithredu, y rolau a chanlyniadau posibl unrhyw achos. Y diben yw darparu fframwaith sy'n nodi'r elfennau allweddol y dylai pob proses addasrwydd i ymarfer myfyrwyr eu cwmpasu, yn hytrach na chyfres ragnodol o ofynion. Rydym yn cydnabod y bydd gan bob darparwr ei bolisiau ei hun, ac y gall y telerau yn y rhain amrywio, er y bydd egwyddorion gweithdrefnau teg a thryloyw i bennu addasrwydd i ymarfer yn parhau'n gyson.

Byddwn yn ystyried y canlynol:

- Y trothwy ar gyfer addasrwydd i ymarfer myfyrwyr
- Y broses ymchwilio
- Rôl yr ymchwilydd
- Ataliadau dros dro
- Y broses ddyfarnu: y panel addasrwydd i ymarfer

Y trothwy ar gyfer addasrwydd i ymarfer myfyrwyr

- 86 Nid yw myfyrwyr yn osteopathiaid sy'n ymarfer eto. Maen nhw o dan rwymedigaeth i gadw at y Safonau Ymarfer Osteopathig ond ar safon sy'n briodol i'w lefel o hyfforddiant ar y pryd, wrth drin cleifion dan oruchwyliaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw eu hymddygiad yn effeithio ar yr ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi mewn ymarferwyr gofal iechyd.
- 87 Dylai darparwyr addysg osteopathig benderfynu a ellir ymdrin â materion sy'n codi drwy waith adferol yn ystod y cwrs, neu a ddylid ystyried achos addasrwydd i ymarfer ffurfiol. Yn rhannol, bydd y penderfyniad hwn yn dibynnu ar y mater dan sylw, a'r cam hyfforddi a mae'r myfyriwr wedi'i gyrraedd a'r amgylchedd y mae'r myfyriwr yn gweithio ynddo.
- 88 Wrth benderfynu a yw unrhyw ddigwyddiad unigol neu batrwm o ymddygiad yn effeithio ar addasrwydd i ymarfer, gellir ystyried y cwestiynau canlynol:
- Cyd-destun: Beth ddigwyddodd?
 - i. A oedd rheolau ar gael?
 - ii. A oedd y rheolau'n ymarferol?
 - iii. A anwybyddwyd y rheolau'n fwriadol?
 - iv. A yw hyn yn eithriad i gymheiriaid?
 - v. A oedd hyfforddiant ar gael?
 - vi. A oedd digon o oruchwyliaeth?

- Os atebwyd ‘na’ i unrhyw un o’r cwestiynau hyn, efallai y byddai’n briodol dysgu o’r digwyddiad o ran gwella’r amgylchedd dysgu a gweithio.
- Pa mor ddifrifol yw’r ymddygiad?
- A oedd hwn yn ddigwyddiad untro, neu’n cynrychioli patrwm o ymddygiad?
- Beth yw lefel yr aeddfedrwydd a’r ddealltwriaeth a ddangoswyd gan y myfyriwr?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad yn cael ei ailadrodd?
- Pa ran o’r cwrs y mae’r myfyriwr yn ei wneud? A yw yn y flwyddyn gyntaf, er enghraifft, neu yn ei flwyddyn glinigol olaf, yn agosáu at raddio?
- Pa mor dda allai’r myfyriwr ymateb i gymorth a chamau adferol?

- 89 Os ymdrinnir ag ymddygiad penodol neu faterion eraill drwy gamau adferol, dylid cofnodi hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw batrymau ymddygiad yn cael eu nodi a’u datrys cyn graddio. Dan rai amgylchiadau, efallai y byddai’n briodol trosglwyddo gwybodaeth o’r fath i’r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- 90 Ar ddiwedd y cwrs, bydd y myfyriwr yn derbyn y cymhwyster cydnabyddedig fel arfer. Mae hyn yn golygu y gall ymarfer yn unol â’r Safonau Ymarfer Osteopathig sydd ar waith ar y pryd. Os gallai’r mater a nodwyd effeithio ar y penderfyniad hwn, dylid defnyddio gweithdrefnau ffurfiol addasrwydd i ymarfer myfyrwyr.

Y broses ymchwilio

- 91 Unwaith y bydd yr achos wedi’i gychwyn, dylid dilyn proses deg a thryloyw er mwyn sicrhau cysondeb i bawb a dull cyffredin o archwilio materion addasrwydd i ymarfer. Dylai’r broses hon a’r amserlen, a ddylai gael ei chyhoeddi gan bob darparwr addysg, fod yn glir i bawb sy’n ymwneud â’r myfyriwr a’r rhai sy’n ymwneud â’r achos addasrwydd i ymarfer. Dylid rhoi diweddariadau rheolaidd i fyfyrwyr ar gynnydd eu hachos. Dylai’r broses gyd-fynd â’r hyn a ddisgwylir gan y brifysgol ddilysu (os yw ar wahân i’r darparwr addysg osteopathig), a chyda’r egwyddorion yn y canllawiau hyn.
- 92 Rhaid hysbysu’r myfyriwr am gymorth annibynnol er mwyn cefnogi ei iechyd a’i les.
- 93 Dylai rôl yr ymchwilydd gael ei chyflawni gan berson annibynnol â chymwysterau addas, yn unol â pholisïau’r darparwr addysg.

Rôl yr ymchwilydd

- 94 Rôl yr ymchwilydd yw coladu a chyflwyno’r dystiolaeth, i lywio penderfyniad ynghylch a yw addasrwydd i ymarfer y myfyriwr wedi’i amharu. Dylai’r ymchwilydd fod yn annibynnol ar y panel addasrwydd i ymarfer a fydd yn gwneud penderfyniad, ac ni ddylai fod yn diwtor personol y myfyriwr (neu debyg) nac yn ymwneud fel arall â chefnogi’r myfyriwr.
- 95 Dylai’r ymchwilydd gadw cofnod llawn o’r ymchwiliad, y dylid ei gynnal mewn modd cymesur, gan ystyried buddiannau cleifion a’r cyhoedd, a’r myfyriwr hefyd.
- 96 Wrth ystyried cyflwyno tystiolaeth, gall yr ymchwilydd ystyried y cwestiynau canlynol:
- A yw ymddygiad y myfyriwr wedi niweidio cleifion (gan gynnwys cydweithwyr a staff) neu eu rhoi mewn perygl o niwed?
 - A yw’r myfyriwr wedi diystyru cyfrifoldebau proffesiynol a chlinigol tuag at gleifion neu gydweithwyr mewn ffordd fwriadol neu ddi-hid?
 - A yw’r myfyriwr wedi cam-drin ymddiriedaeth claf neu wedi tramgwyddo yn erbyn ymreolaeth claf neu hawliau sylfaenol eraill?

- A yw'r myfyriwr wedi diystyru'r prosesau ar gyfer darparu gofal osteopathig yn fwriadol a di-hid neu wedi peryglu enw da'r darparwr addysg osteopathig, y clinig neu leoliad arall?
 - A yw'r myfyriwr wedi ymddwyn yn anonest, yn dwyllodrus, neu mewn ffordd sydd â'r nod o gamarwain neu niweidio eraill?
 - A yw iechyd neu anabledd y myfyriwr, neu ei ffordd o reoli hyn, yn peryglu diogelwch cleifion?
- 97 Os atebir 'ydy' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, byddai'n briodol fel arfer cyflwyno'r dystiolaeth i banel addaswydd i ymarfer.
- Gall yr ymchwilydd ystyried y canlynol hefyd:
- A yw'r myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth a phwyso a mesur yr ymddygiad, a pha bryd oedd hyn? A yw'r myfyriwr wedi ystyried camau adferol priodol neu ymddygiad datblygiadol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd?
 - A oes amgylchiadau lliniarol a gyfrannodd at y broblem addaswydd i ymarfer, ac sydd wedi cael eu cydnabod? A yw'r posibilrwydd wedi cael ei ystyried y gallai fod angen addasiad rhesymol? A oes camau wedi'u cymryd i geisio cymorth ychwanegol dan yr amgylchiadau hyn?
- 98 Dylai'r ymchwilydd gadw cofnodion o'r ymchwiliad, gan gynnwys cofnodion o bryderon a godwyd, nodiadau o gyfarfodydd a gynhaliwyd, cyfweiliadau a datganiadau. Dylid llunio adroddiad ysgrifenedig sy'n rhoi canlyniadau'r ymchwiliad, ac sy'n manylu ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd.
- 99 Dylai'r ymchwilydd gyflwyno ei ganfyddiadau i unigolyn neu bwyllgor, yn unol â phrosesau'r darparwr addysg. Os yw'r unigolyn neu'r pwyllgor hwnnw'n ystyried, yng ngoleuni adroddiad yr ymchwilydd, fod ymddygiad y myfyriwr yn ddigon difrifol neu barhaus i godi cwestiwn am ei addaswydd i ymarfer, dylid cyfeirio'r achos at banel addaswydd i ymarfer.
- 100 Gall yr unigolyn neu'r pwyllgor perthnasol benderfynu nad oes digon o dystiolaeth i godi cwestiwn am addaswydd i ymarfer y myfyriwr. Fel arall, gellir ystyried o ganlyniad i'r ymchwiliad nad oes digon o dystiolaeth i godi cwestiwn am addaswydd i ymarfer y myfyriwr. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y teimlir bod angen mesurau ychwanegol i sicrhau bod y myfyriwr yn gallu mynd i'r afael â'r materion a ysgogodd yr ymchwiliad, a bydd angen hysbysu'r myfyriwr a'r holl staff addysgu perthnasol am y rhain. Mae'n bwysig sicrhau bod pob mater difrifol sy'n cyrraedd trothwy addaswydd i ymarfer myfyriwr (gweler tudalen 25) yn cael eu hystyried drwy'r gweithdrefnau addaswydd i ymarfer, yng ngoleuni'r goblygiadau ar gyfer diogelwch cleifion.

Atal dros dro

- 101 Ar ddechrau'r ymchwiliad, efallai y bydd angen ystyried atal y myfyriwr rhag dod i gysylltiad â chleifion neu o'r cwrs tra bydd yr ymchwiliad yn parhau. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion, cydweithwyr neu'r myfyriwr. Dylai darparwyr addysg osteopathig sicrhau bod y penderfyniad yn gymesur, yn deg ac yn cael ei ail-werthuso'n rheolaidd.

Y broses ddyfarnu: y panel addaswydd i ymarfer

- 102 Ni ddylai'r panel addaswydd i ymarfer gynnwys yr ymchwilydd enwebedig. Gall fod yn fuddiol i'r panel gynnwys staff o ddarparwyr addysg osteopathig eraill, i helpu i ddangos ystyriaeth wrthrychol o'r dystiolaeth. Fel arfer, bydd cymysgedd o arbenigedd proffesiynol, addysgol a lleyg yn briodol. Dylai pob aelod o'r panel fod yn gyfarwydd â'r canllawiau hyn, canllawiau lleol, a **Chanllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar reoli myfyrwyr ag anabledd a chyflyrau iechyd a materion cydraddoldeb ac amrywiaeth**.
- 103 Dylai'r panel addaswydd i ymarfer sicrhau bod y myfyriwr yn cael rhybudd digonol ynghylch dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad addaswydd i ymarfer, a'r holl dystiolaeth y mae'r ymchwilydd yn bwriadu dibynnu arni, a dylai roi gwybodaeth i'r myfyriwr sut y bydd yr achos yn cael ei gynnal. Dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr gasglu unrhyw dystiolaeth angenrheidiol, gan gynnwys tystiolaeth feddygol, a thystiolaeth tystion sydd wedi'i hystyried gan yr ymchwilydd lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r myfyriwr gael cyfle hefyd i fynd i'r gwrandawriad gyda chefnogwr annibynnol, gwybodus a gwrthrychol. Dylai'r myfyriwr gael amlinelliad o'r honiadau a'r dystiolaeth sydd i'w chyflwyno cyn gynted â phosibl, fel y gall baratoi ar gyfer y gwrandawriad. Rhaid cymryd camau i archwilio a oes angen addasiadau rhesymol ar y myfyriwr i fod yn bresennol yng gwrandawriad y panel.
- 104 Bydd y panel addaswydd i ymarfer yn clywed y dystiolaeth gan yr ymchwilydd a'r myfyriwr, ac efallai y bydd yn clywed gan dystion ar ran yr ymchwilydd a'r myfyriwr hefyd. Dylai'r panel fabwysiadu dull chwilfrydig yn hytrach na gwrthwynebol. Yna bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a amharwyd ar addaswydd i ymarfer. Os amharwyd ar addaswydd i ymarfer, dylai'r panel ganiatáu i'r myfyriwr gyflwyno mesurau lliniaru. Yna bydd y panel yn ystyried sancsiynau.

Dylai'r panel addaswydd i ymarfer:

- ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymchwilydd
- ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan y myfyriwr
- penderfynu a amharwyd ar addaswydd i ymarfer drwy gyfeirio at y cydbwysedd rhwng diogelwch cleifion a'r cyhoedd, buddiannau'r myfyriwr a'r angen i gynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn
- ystyried unrhyw fesurau lliniaru a gyflwynir
- penderfynu ar y gosb briodol.

Canlyniadau gwrandawriadau addaswydd i ymarfer myfyriwr

- 105 Mae canlyniadau gwrandawriad addaswydd i ymarfer myfyriwr yn ymwneud yn llwyr â diogelwch cleifion, lles y cyhoedd a'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi yn y proffesiwn. Ni ddylai'r canlyniadau fod yn gosb i'r myfyriwr.
- 106 Hefyd, rhaid i fyfyrwyr gydsynio i ddatgelu sancsiynau addaswydd i ymarfer y myfyriwr gan y darparwr addysg osteopathig i bersonél eraill lle bo angen at ddibenion diogelwch cleifion, ac i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol hefyd. Er enghraifft, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd yn briodol fel arfer i'r rhai sy'n goruchwyllo myfyrwyr fod yn ymwybodol o unrhyw sancsiynau addaswydd i ymarfer myfyrwyr, er mwyn diogelu cleifion, cydweithwyr neu staff.
- 107 Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig roi gwybod am achosion addaswydd i ymarfer myfyrwyr i'r Cyngor fel rhan o'u Hadroddiad Blyneddol. Dim ond lle mae'r panel wedi canfod bod amheuaeth ynghylch addaswydd i ymarfer y myfyriwr a bod cosb wedi'i gosod y caiff y Cyngor ei hysbysu am fanylion myfyrwyr unigol. Dylent roi gwybod hefyd am fanylion achosion lle mae myfyrwyr unigol wedi bod yn destun gweithdrefnau addaswydd i ymarfer myfyriwr ond os na wnaed unrhyw ganfyddiad, ni ddylid datgelu enw'r myfyriwr.

- 108 Rhaid i raddedigion ddatgelu unrhyw gosbau a roddwyd o ganlyniad i wrandawiau addaswydd i ymarfer pan oeddent yn fyfyrwr i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol fel rhan o'r cais i gofrestru.
- 109 Mae canlyniadau posibl gwrandawriad addaswydd i ymarfer myfyriwr yn cynnwys y canlynol:
- Nid oes amhariad ar addaswydd i ymarfer ac nid oes achos i'w ateb.
 - Mae tystiolaeth o gamymddwyn ond nid oes amhariad ar addaswydd i ymarfer ar hyn o bryd.
 - Bernir bod amhariad ar addaswydd i ymarfer y myfyriwr ac mae'n derbyn cosb ffurfiol. Gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol, y cosbau yw:
 - rhybudd ffurfiol
 - ymgymeriad
 - amodau
 - gwaharddiad dros dro o'r cwrs osteopathig neu rannau ohono
 - diarddel o'r cwrs osteopathig
- 110 Pwrpas gosod cosb yw amddiffyn cleifion a'r cyhoedd, cynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn, a sicrhau bod myfyriwr y mae amhariad ar eu haddaswydd i ymarfer yn cael eu trin yn effeithiol drwy fonitro agos neu eu tynnu oddi ar eu cwrs hyd yn oed os oes angen. Yn gyffredinol, dylai myfyriwr gael y cyfle i ddysgu o'u camgymeriadau.
- 111 Dylai paneli ystyried a fydd y gosb yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd, ac yn cynnal safonau proffesiynol.
- Pan fydd panel yn penderfynu rhoi cosb, mae'n bwysig ei fod yn:
- nodi'n glir yn ei benderfyniad ei fod wedi ystyried yr holl opsiynau
 - esbonio pam ei fod yn ystyried bod ei benderfyniad yn ymateb priodol a chymesur
 - rhoi rhesymau clir, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniaru neu waethygu a ddylanwadodd ar ei benderfyniad, i roi cosb benodol
 - lle bo'n briodol, cynnwys esboniad ar wahân pam yr ystyriwyd bod angen hyd penodol o gosb

Rhybuddion ffurfiol

- 112 Mae rhybudd yn caniatáu i'r darparwr addysg osteopathig roi gwybod i fyfyriwr bod ei ymddygiad yn gwyro oddi wrth y safonau a ddisgwylir gan fyfyrwr osteopathig ac na ddylid ei ailadrodd. Mae'n ymateb ffurfiol er mwyn cynnal gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol, gan danlinellu pwysigrwydd diogelwch cleifion. Dylai fod cefnogaeth ddigonol i'r myfyriwr fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol a allai fod wedi cyfrannu at ei ymddygiad gwael.
- 113 Mae cofnodi rhybuddion yn ffurfiol yn caniatáu i'r darparwr addysg osteopathig nodi unrhyw ymddygiad ailadroddus a chymryd camau priodol. Gall panel ystyried unrhyw achos o dorri rhybudd mewn perthynas ag achos yn erbyn y myfyriwr yn y dyfodol, gan y gallai ddangos patrwm o ymddygiad gyda goblygiadau penodol o ran ei addaswydd i ymarfer. Dylai'r rhybudd aros ar gofnod y myfyriwr, a rhaid i'r myfyriwr fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau i ddatgelu'r rhybudd wrth wneud cais i'r Cyngor i'w gofrestru. Fel arfer, ni fydd y Cyngor yn cymryd camau pellach os yw'n hysbys bod y darparwr addysg wedi ymdrin â'r mater. Fodd bynnag, os na chaiff y wybodaeth ei datgelu, gallai hyn ynddo'i hun godi pryderon ynghylch cofrestru y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt.

- 114 Efallai y bydd y panel addaswydd i ymarfer am ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu a yw'n briodol cyhoeddi rhybudd:
- A oes tystiolaeth y gallai'r myfyriwr beri perygl i gleifion (gan gynnwys cyd-fyfiwrwr a staff) neu'r cyhoedd? Os felly, mae'n annhebygol y bydd rhybudd yn briodol.
 - A yw'r myfyriwr wedi ymddwyn yn amhroffesiynol?
 - A yw'r myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth o'r ymddygiad ac effaith yr ymddygiad?
 - A yw ymddygiad y myfyriwr yn codi pryderon, ond ddim yn ddigon difrifol i ddangos nad yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer ar hyn o bryd (er ei fod yn y gorffennol agos)?
 - A yw'r pryderon yn ddigon difrifol, pe bai'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd, y byddai'n debygol o arwain at benderfynu bod amhariad ar addaswydd i ymarfer? Bydd angen i'r panel ystyried i ba raddau y gallai'r pryder effeithio ar ddiogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Ymgymeriadau

- 115 Mewn amgylchiadau penodol, gall y panel addaswydd i ymarfer gytuno ar ymgymeriad gyda'r myfyriwr dan sylw, a chytuno i atal achos pellach tra bo'r ymgymeriad yn ei le. Gall ymgymeriadau fod o gymorth pan fo'r darparwr addysg a'r myfyriwr yn cytuno y gallai fod amhariad ar addaswydd i ymarfer a chytuno ar sut y gellir sicrhau diogelwch cleifion wrth symud ymlaen.
- 116 Mae ymrwymiad yn gytundeb rhwng y myfyriwr a'r darparwr addysg osteopathig, lle ceir cydnabyddiaeth benodol y gall fod amhariad ar addaswydd i ymarfer y myfyriwr. Fel arfer, gellir bwrw ymlaen â'r cytundeb hwn cyn neu yn lle gwrandawriad neu benderfyniad addaswydd i ymarfer ffurfiol.
- 117 Gall ymgymeriadau gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer clinigol neu ymddygiad y myfyriwr, neu ymrwymiad i dderbyn â goruchwyliaeth feddygol neu addysgu adferol. Fel gydag amodau (gweler tudalen 34), maen nhw'n debygol o fod yn briodol os yw'r pryderon ynghylch addaswydd i ymarfer y myfyriwr yn golygu mai cyfnod o addysgu adferol neu oruchwyliaeth, neu'r ddau, yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw.
- 118 Dim ond os oes lle i gredu y bydd y myfyriwr yn cydymffurfio y bydd ymgymeriadau'n briodol – er enghraifft, oherwydd bod y myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth wirioneddol o'i broblemau a'r effaith y mae'r ymddygiad wedi ei chael neu y gallai'r ymddygiad fod wedi'i chael ar gleifion, cydweithwyr a staff. Dylai'r myfyriwr ddangos potensial ar gyfer camau adferol hefyd. Efallai y bydd y panel yn dymuno gweld tystiolaeth bod y myfyriwr wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun, a, lle bo angen, wedi cymryd camau i wella ei ymddygiad.
- 119 Wrth ystyried a ddylid gwahodd y myfyriwr i dderbyn ymgymeriadau, dylai'r panel ystyriedi:
- a yw'n ymddangos bod ymgymeriadau'n cynnig mesurau diogelu digonol i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd, myfiwrwr eraill a staff
 - a yw'r myfyriwr wedi dangos digon o ddealltwriaeth, gan gynnwys deall effaith yr ymddygiad
- 120 Os nad yw ymgymeriad yn addas neu'n briodol, dylai'r panel addaswydd i ymarfer ailymgynnull yn unol â'r fframwaith a'r canllawiau sydd ar waith.

Amodau

- 121 Mae gosod amodau ar gyfranogiad parhaus y myfyriwr yn y rhaglen yn briodol pan fydd pryder sylweddol am ymddygiad neu iechyd y myfyriwr, yn dilyn canfyddiad bod amhariad ar ei addaswydd i ymarfer. Dim ond os yw'r panel yn fodlon y gallai'r myfyriwr ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant adferol a mwy o oruchwyliaeth, a'i fod wedi dangos dealltwriaeth o'i broblemau y dylid rhoi'r gosb hon. Dylai'r panel ystyried unrhyw dystiolaeth megis adroddiadau ar berfformiad, iechyd ac ymddygiad y myfyriwr, ac unrhyw amgylchiadau lliniaru eraill.
- 122 Dylid egluro amcanion unrhyw amodau fel bod y myfyriwr yn gwybod beth y a ddisgwylir ganddo, ac fel y gall panel mewn adolygiad yn y dyfodol nodi'r diffygion gwreiddiol a'r cynigion ar gyfer eu cywiro. Dylai unrhyw amodau fod yn briodol, yn gymesur, yn ymarferol ac yn fesuradwy, a dylid pennu amser penodol ar gyfer adolygu cynnydd.
- 123 Cyn gosod amodau, dylai'r panel fodloni ei hun:
- y gellir gwella'r ymddygiad drwy osod amodau fel rhan o gynllun gweithredu
 - bod amcanion yr amodau'n glir
 - bydd unrhyw adolygiad o'r cynllun gweithredu yn y dyfodol yn gallu penderfynu a yw'r amcan wedi'i gyflawni, ac a fydd cleifion yn dal i fod mewn perygl
 - bod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i oruchwyllo'r myfyriwr sydd dan amodau ar waith neu y byddant ar gael
- 124 Er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, gall amodau fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf neu bob un o'r ffactorau canlynol yn amlwg:
- Mae'r myfyriwr wedi dangos digon o ddealltwriaeth, ac nid oes dystiolaeth nad yw'n gallu dilyn arferion da a gwerthoedd proffesiynol yn ei hanfod.
 - Nid oes dystiolaeth o broblemau personoliaeth neu agwedd niweidiol a dwfn.
 - Mae meysydd penodol o astudiaethau'r myfyriwr sydd angen asesiad pellach neu gamau unioni.
 - Mae potensial i gamau adferol fod yn llwyddiannus.
 - Mae'r myfyriwr yn barod i ymateb yn gadarnhaol i gymorth ac amodau.
 - Mae'r myfyriwr yn barod i fod yn onest ac yn agored gyda chleifion, cydweithwyr a goruchwylwyr os aiff pethau o chwith.
 - Ni fydd cleifion (gan gynnwys cydweithwyr a staff) yn cael eu rhoi mewn perygl naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r amodau.
 - Mae'n bosibl llunio amodau priodol ac ymarferol y gellir eu gwirio a'u monitro, ac a fydd yn amddiffyn cleifion yn ystod yr amser y maen nhw mewn grym.
- 125 Os yw addasiadau rhesymol, mewn perthynas â rheoli amhariadau iechyd neu anabledd, wedi methu oherwydd ymddygiad 'diffyg cydymffurfio' ond bod parodrwydd gwirioneddol i reoli'r amhariad ar iechyd a bod y myfyriwr wedi cytuno i gadw at amodau sy'n ymwneud, er enghraifft, â chyflwr meddygol, triniaeth a goruchwyliaeth, gall fod yn briodol cytuno ar addasiadau rhesymol pellach a gosod amodau ynghylch ymddygiad.

Atal o'r cwrs dros dro

- 126 Mae atal yn rhwystro myfyriwr rhag parhau â'i gwrs am gyfnod penodol, a rhag graddio ar yr adeg ddisgwyliedig. Mae atal yn briodol ar gyfer pryderon diogelwch cleifion sy'n ddigon difrifol i olygu bod angen atal tra bod camau adferol yn cael eu cyflawni. Dylid atal lle nad yw amodau'n ymarferol, a'r ffordd orau i adfer yn sgil diffygion neu wella o salwch, er enghraifft, yw y tu allan i amgylchedd y cwrs.
- 127 Mae enghreifftiau o ymddygiad lle gallai gwaharddiad fod yn briodol yn cynnwys myfyrywyr sydd yn y broses o ddangos eu bod wedi gwella o gaethiwed i sylwedd.
- 128 Pan fydd myfyrywyr yn dychwelyd o waharddiad, dylid cynnal adolygiad priodol er mwyn gallu ystyried cynnydd fel rhan o drafodaeth. Yn ystod y drafodaeth, byddai tystiolaeth o gamau unioni a gymerwyd gan y myfyriwr, sy'n benodol i'w achos, yn ystod y cyfnod atal dros dro yn cael eu hystyried fel arfer. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, tystiolaeth bellach o fyfyrion a dysgu megis traethawd myfyriol neu waith arall a osodwyd sy'n dangos dealltwriaeth o'r rheswm y bu'n rhaid gweithredu cyfnod atal a pham mae'r myfyriwr yn teimlo y gall ddychwelyd; gallai gynnwys adroddiadau meddygol a therapiwtig hefyd os yw'n briodol. Mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau, bydd angen adroddiad meddygol a therapiwtig bron bob amser cyn y gall myfyriwr ddychwelyd i ymarfer clinigol dan oruchwyliaeth. Os oes cynnydd wedi'i wneud a bod modd sicrhau diogelwch cleifion, gellir cytuno ar amodau pellach am gyfnod gydag adolygiad priodol (gweler tudalen 35).
- 129 Er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, gall atal dros dro fod yn briodol pan fydd rhai neu bob un o'r ffactorau canlynol yn amlwg:
- Mae'r torri gwerthoedd proffesiynol yn ddifrifol, ond nid yw'n anghydnaws yn sylfaenol â'r myfyriwr yn parhau ar y cwrs. Mae camau adferol yn bosibl, ond mae angen atal dros dro am resymau diogelwch cleifion.
 - Mae potensial ar gyfer camau adferol tra bod y myfyriwr wedi'i atal.
 - Efallai y bydd amhariad ar farn y myfyriwr ac mae risg i ddiogelwch cleifion os caniateir i'r myfyriwr barhau ar y cwrs, hyd yn oed gydag amodau.
 - Nid oes tystiolaeth nad yw'r myfyriwr yn y bôn yn gallu dilyn arfer da a gwerthoedd proffesiynol.
 - Mae'r panel yn fodlon bod gan y myfyriwr ddealltwriaeth ac nid yw'n debygol o ailadrodd yr ymddygiad.
 - Bydd cefnogaeth briodol i'r myfyriwr wrth ddychwelyd i'r cwrs.

Diarddel o'r cwrs

- 130 Gall y panel addasrwydd i ymarfer argymell i'r darparwr addysg osteopathig y dylai ddiarddel myfyriwr os yw o'r farn mai dyma'r unig ffordd i amddiffyn cleifion, cyd-fyfyrywyr, staff ac eraill. Dylid helpu'r myfyriwr i drosglwyddo i gwrs arall os yw'n briodol; Fodd bynnag, gall natur ymddygiad y myfyriwr olygu na ddylid ei dderbyn ar gysiau o natur glinigol, nac ar unrhyw gwrs arall.
- 131 Diarddel yw'r gosb fwyaf difrifol a dim ond os ystyrir bod ymddygiad y myfyriwr yn anghydnaws yn sylfaenol â pharhau ar gwrs osteopathig neu ymarfer fel osteopath yn y pen draw y dylid gwneud hynny. Er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, gall diarddel fod yn briodol pan fydd myfyriwr:
- wedi gwyrto'n ddifrifol oddi wrth yr egwyddorion sydd yn y Safonau Ymarfer Osteopathig ac yn y canllawiau hyn
 - wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n anghydnaws yn sylfaenol â bod yn osteopath
 - wedi dangos diffyg di-hid am ddiogelwch cleifion

- wedi gwneud niwed difrifol i eraill, cleifion neu fel arall, naill ai'n fwriadol neu drwy anghymwyster, yn enwedig pan fo risg barhaus i gleifion
- wedi camddefnyddio'r ymddiriedaeth a roddir iddynt
- wedi torri hawliau claf neu gamfanteisio ar berson bregus
- wedi cyflawni troseddau o natur rywiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ymwneud â phornograffi plant
- wedi cyflawni troseddau'n cynnwys trais
- wedi bod yn anonest, gan gynnwys cuddio ei weithredoedd, yn enwedig pan fo'r anonestrwydd wedi bod yn barhaus
- wedi rhoi ei fuddiannau ei hun o flaen rhai'r cleifion
- wedi dangos diffyg dealltwriaeth yn gyson o ddifrifoldeb ei weithredoedd neu'r canlyniadau
- heb ddangos unrhyw botensial ar gyfer adferiad

Terfynu ar sail iechyd

- 132 Efallai y bydd angen terfynu ar sail iechyd lle na ellir gwneud addasiadau rhesymol a fyddai'n galluogi myfyriwr i fodloni neu barhau i fodloni'r safonau cymhwysedd / canlyniadau i raddedigion. Fodd bynnag, dim ond ar ôl ymgynghori â'r myfyriwr y byddai hyn yn digwydd ac unwaith y byddai pob addasiad rhesymol wedi cael ei ystyried.

Gwaredu trwy gydsyniad

- 133 Gellir cwblhau ymchwiliad addasrwydd i ymarfer myfyriwr drwy waredu drwy gydsyniad dan amgylchiadau priodol. Mae gwaredu trwy gydsyniad yn broses lle gall y myfyriwr a'r darparwr addysg gytuno i ddod ag achos i ben heb fod angen gwrandawriad panel â her. Gallai hyn fod yn berthnasol dan amgylchiadau lle mae'r myfyriwr yn penderfynu gadael y rhaglen cyn gwrandawriad panel, neu pan fo'r myfyriwr yn cydsynio i gosb. O ran cydsynio i gosb, rhaid i'r darparwr addysg a'r myfyriwr gytuno ar ganlyniad o'r math y byddai panel yn ei wneud pe bai'r mater wedi cael ei ystyried yn y ffordd honno. Yn ogystal, dylai'r meini prawf canlynol gael eu cymhwyso:

- Dylai'r ymchwilydd argymhell bod panel yn ystyried yr achos
- Mae'r myfyriwr yn cyfaddef sylwedd yr honiadau, yn dangos dealltwriaeth ohonynt a pharodrwydd i fynd i'r afael â nhw.
- Mae unrhyw gamau unioni y cytunwyd arnynt yn cyd-fynd â'r canlyniadau y mae panel yn debygol o'u cyrraedd fel y nodir yn yr adrannau uchod

Dylid rhoi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol o hyd am achosion sy'n cael eu gwaredu trwy gydsyniad fel rhan o ofynion adrodd blynyddol y darparwr.

Cydnabyddiaeth:

Wrth baratoi'r canllawiau hyn rydym wedi manteisio ar **GMC and MSC's Achieving Good Medical Practice: Guidance for Students** (2016)



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

info@osteopathy.org.uk
020 7357 6655
osteopathy.org.uk

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn elusen gofrestrdig yng Nghymru a Lloegr (1172749)